**Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

**Dyddiad: 7 Tachwedd 2018**
**Lleoliad: Y Senedd, Bae Caerdydd**
**Teitl: Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2019/20 ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

## 1. Diben

Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol ar 30 Gorffennaf yn eu gwahodd i roi tystiolaeth ar eu cynigion ar gyfer y Gyllideb Ddrafft a gofyn iddynt ddarparu papur mewn perthynas â'r Gyllideb Ddrafft.

## 2. Cyflwyniad

Fel y llynedd, mae proses Gyllideb Ddrafft mewn dau gam. Cafodd y gyllideb amlinellol (Cam 1) ei chyhoeddi ar 02 Hydref 2018, a'r gyllideb fanwl (Cam 2) ar 23 Hydref. Mae'r gyllideb amlinellol yn canolbwyntio ar yr amlen gyllidol gyffredinol ar gyfer Llywodraeth Cymru a'r prif ddyraniadau lefel MEG, ac mae'r gyllideb fanwl yn cwmpasu'r cynlluniau gwariant ar gyfer Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) ym mhob MEG.

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon am gynigion cyllideb y dyfodol y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2019-20 a 2020-21 ar gyfer cyllidebau cyfalaf a hefyd yn rhoi'r diweddaraf am feysydd penodol o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

## 3. Trosolwg o'r Gyllideb

| | **2019-20** | **2020-21** |
|---|---|---|
| **Refeniw** | **£m** | **£m** |
| Llinell Sylfaen DEL 2019-20 fel ar gyfer Cyllideb Derfynol 2018-19 | 7,528.480 | |
| Dyraniad MEG | 289.176 | |
| Trosglwyddiadau MEG i MEG | (4.450) | |
| **DEL diwygiedig fel ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2019-20** | **7,813.206** | |
| **Cyfalaf** | | |
| Llinell sylfaen gyfalaf fel ar gyfer Cyllideb Derfynol 2018-19 | 328.138 | 309.988 |
| Dyraniad MEG | 44.958 | 28.500 |
| **DEL diwygiedig fel ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2019-20** | **373.096** | **338.488** |
| **Cyfanswm Cyffredinol MEG Iechyd a** | **8.186.302** | |

| Gwasanaethau Cymdeithasol | | |
|---|---|---|

*Nid yw'r tabl uchod yn cynnwys Gwariant a Reolir yn Flynyddol sydd y tu allan i Derfyn Gwariant Adrannol (DEL) Llywodraeth Cymru).*

Nid oes unrhyw linellau sylfaen refeniw dangosol wedi'u pennu ar gyfer 2020-21.

Dangosir manylion yr holl drosglwyddiadau yn Atodiad A i'r papur.

## 4. Dull o ran Cynigion y Gyllideb

Mae'r portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cefnogi ein huchelgais i wella iechyd a llesiant unigolion, teuluoedd a chymunedau. Gwneir hyn drwy gyflawni'r tri amcan a nodir yn Ffyniant i Bawb: gwasanaethau iechyd a gofal o ansawdd sy'n addas ar gyfer y dyfodol, hyrwyddo iechyd a llesiant da i bawb ac adeiladau cymunedau iachach a gwell amgylcheddau. Rydym wedi cymryd dull o weithredu yn yr hirdymor wrth ddatblygu ein cynlluniau gwariant ar gyfer 2019-20 a 2020-21, gyda phwyslais ar gyflawni ein gweledigaeth o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig, di-dor ar gyfer y dyfodol fel y nodir yn *Cymru Iachach, ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol.*

Mae'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys y cyllid refeniw a chyfalaf craidd ar gyfer GIG Cymru, yn ogystal â chyllid i gynorthwyo iechyd cyhoeddus, gofal cymdeithasol a chefnogi plant. Rydym yn parhau i flaenoriaethu buddsoddi yn GIG Cymru ac rydym yn buddsoddi £287 miliwn ychwanegol o gyllid refeniw yn y system iechyd a gofal cymdeithasol sydd, ynghyd â'r cynnydd arfaethedig o £220 miliwn, yn dod â'n buddsoddiad refeniw ychwanegol yn 2019-20 i dros £500 miliwn.

Mae Cyllideb 2019-20 yn dyrannu £45 miliwn ychwanegol o gyllid cyfalaf yn 2019-20 a £28 miliwn pellach yn 2020-21 ar gyfer buddsoddiad seilwaith i gynorthwyo cyflawni gwasanaethau gofal iechyd o ansawdd uchel sy'n gynaliadwy ac yn hygyrch ac i greu'r amgylchedd a fydd yn sail i'r newidiadau sy'n ofynnol i drawsnewid darpariaeth gofal iechyd a hyrwyddo arloesedd. Yn fwy penodol, bydd y cyllid ychwanegol yn cynorthwyo'r cyflawni ar draws amrywiaeth o flaenoriaethau gan gynnwys y prosiectau gofal sylfaenol sydd yn yr arfaeth; cam nesaf y rhaglen yn cael ei chynnal gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i gyflwyno cerbydau mwy effeithlon a gwyrddach yn lle hen ambiwlansys; cymorth parhaus ar gyfer datblygu Canolfan Ganser Felindre newydd i drawsnewid y gwaith o ddarparu gwasanaethau gofal canser; a gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau newyddenedigol.

## 5. Cymru Iachach

Mae Cymru Iachach yn bodloni ein hymrwymiad yn *Ffyniant i Bawb* i gyhoeddi cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru mewn ymateb i adroddiad yr Adolygiad Seneddol o Ddyfodol Hirdymor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r Cynllun yn adeiladu ar athroniaeth Gofal Iechyd Darbodus i gael effaith ar iechyd a llesiant drwy gydol bywyd. Ceir pwyslais ar atal salwch a chefnogi pobl i

reoli eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, gan alluogi pobl i fyw'n annibynnol cyhyd ag y gallant.

Yn 2019-20 byddwn yn buddsoddi £50 miliwn pellach yn ein Cronfa Drawsnewid Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gynorthwyo datblygu a gweithredu modelau newydd o iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Mae'r modelau hyn yn cael eu cefnogi gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gan ddwyn ynghyd awdurdodau lleol, byrddau iechyd a phartneriaid eraill ac maent wedi'i hadeiladu ar sail o arloesi lleol. Wedi'i hysgogi drwy ein Rhaglen Drawsnewid, caiff y Gronfa ei defnyddio i gyflymu cynnydd ac uwchraddio'r broses newydd hon o ddarparu gwasanaeth. Yn ddiweddar cyhoeddais y rhaglen gyntaf i gael cymorth gan y Gronfa – y rhaglen *"Fi, Fy Nghartref, Fy Nghymuned"* a gefnogir gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg.

Yn y Gyllideb Ddrafft, cyhoeddwyd £192 miliwn o fuddsoddiad refeniw newydd i ddatblygu ein gweledigaeth a amlinellwyd yn *Cymru Iachach*. Cafodd ein Cynllun ei ddatblygu drwy gyfranogiad gyda'n partneriaid cyflawni allweddol, a gynrychiolir gan Gydffederasiwn y GIG, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Mae ein cynlluniau gwariant yn adlewyrchu'r dull integredig hwn o ran cyflawni ein gweledigaeth hirdymor, gyda'r buddsoddiad newydd yn cael ei ddosbarthu ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol. Caiff y buddsoddiad ei ddefnyddio'n bennaf ar gyfer gweithgareddau ataliol, cadw unigolion mor iach ac annibynnol am gyhyd â phosibl, a galluogi newid i system "iechyd da", gan gynorthwyo a rhagweld anghenion iechyd i atal salwch a lleihau effaith iechyd gwael.

Byddwn yn defnyddio'r buddsoddiad hwn yn y ffyrdd canlynol:

- Caiff £60 miliwn ei ddyrannu i fyrddau iechyd lleol i'w galluogi i ddatblygu cynlluniau tymor canolig integredig cryfach ar gyfer 2019-20 ac ar ôl hynny a fydd yn datblygu gweledigaeth *Cymru Iachach*. Byddwn yn disgwyl i fyrddau iechyd ddefnyddio'r cyllid hwn i ddatblygu disgwyliadau allweddol yn ein Cynllun, gan gynnwys cynyddu buddsoddiad mewn gofal sylfaenol, ymgorffori gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth gan ganolbwyntio ar ganlyniadau sy'n bwysig i gleifion, a gwella ansawdd.

- Caiff £30 miliwn ei ddyrannu i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i bwysleisio eu rôl arweiniol wrth gyflawni *Cymru Iachach*. Ein bwriad yw i'r buddsoddiad newydd hwn gael ei ddefnyddio i leihau pwysau drwy gynorthwyo gwelliannau mewn gwasanaethau plant, gan helpu i leihau'n ddiogel yr angen i blant ddechrau derbyn gofal. Byddai hyn yn canolbwyntio ar ailuno teuluoedd, a buddsoddi mewn ymyriad ataliol ac yn ystod y blynyddoedd cynnar gan gynnwys cymorth therapiwtig i blant mewn gofal a phlant sydd wedi'u mabwysiadu. Byddwn hefyd yn cynnwys cymorth i ofalwyr a'n sefydliadau trydydd sector gwerthfawr.

- Caiff £30 miliwn ei ddyrannu fel grant penodol yn uniongyrchol i awdurdodau lleol er mwyn mynd i'r afael â materion cynaliadwyedd mewn gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys pwysau o ran y gweithlu gofal cartref. Mae'r cyllid uniongyrchol hwn o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ychwanegol at y £20 miliwn sy'n cael ei ddarparu ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol drwy'r

Grant Cynnal Refeniw, gan ddod â chyfanswm y cynnydd o ran buddsoddiad mewn gwasanaethau cymdeithasol i £50 miliwn.

- Caiff £25 miliwn ei ddefnyddio i gynorthwyo rhaglenni a gyfeirir yn genedlaethol ar gyfer technoleg ddigidol fel galluogwr allweddol newid trawsnewidiol, gan alluogi defnydd mwy effeithiol o adnoddau ar draws y gwasanaeth a grymuso cleifion a gweithwyr proffesiynol drwy ddarparu gwybodaeth unrhyw le ar unrhyw adeg. Byddwn yn blaenoriaethu ein cyllid digidol i gynorthwyo pedwar maes blaenoriaeth allweddol: seilwaith a thechnoleg ategol ; arloesi i gynorthwyo ein dinasyddion; cofnod electronig sengl; a buddsoddi mewn data.

- Caiff £10 miliwn ei ddyrannu i ddatblygu rhaglenni cenedlaethol ar gyfer atal a'r blynyddoedd cynnar.

- Caiff £15 miliwn ei ddefnyddio ar gyfer iechyd meddwl ac anableddau dysgu, yn ogystal â bodloni ein hymrwymiad fel rhan o Gytundeb Cyllideb 2018-19 i wneud cynnydd o £20 miliwn o ran y cyllid wedi'i neilltuo ar gyfer iechyd meddwl mewn byrddau iechyd lleol. Byddwn yn buddsoddi mewn iechyd meddwl mewn ysgolion drwy'r dull rhaglen ‘ysgol gyfan’, cymorth iechyd meddwl cofleidiol i'r rhai sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o golli'u cartrefi, iechyd meddwl amenedigol, a gofal iechyd mewn carchardai. Byddwn hefyd yn darparu cymorth canolog i raglen Gwella Bywydau anableddau dysgu.

- Caiff £22 miliwn ei ddefnyddio i ddatblygu rhaglenni ategol eraill i gyflawni ymrwymiadau *Cymru Iachach*, gan gynnwys y Rhaglen Drawsnewid, gwella ansawdd a thrawsnewid gwasanaethau clinigol.

## 6. Dyraniad Craidd y GIG

Yng Nghyllideb y flwyddyn ddiwethaf, dyrannwyd £220 miliwn ychwanegol yn 2019-20 er mwyn i'r GIG fodloni'r bwlch Nuffield – cyfrifiad Ymddiriedolaeth Nuffield o'r cyllid ychwanegol sydd ei angen, ar ben effeithlonrwydd y GIG, i gynnal y gwaith o ddarparu gwasanaethau GIG Cymru ar adeg o alw a phwysau cynyddol. Yn ogystal, rydym wedi cynyddu cyllid craidd y GIG yn y gyllideb hon £94.6 miliwn pellach i dalu am gostau ychwanegol cytundeb cyflogau *Agenda ar gyfer Newid,* gan ddod â chyfanswm y cynnydd o ran cyllid craidd y GIG ar gyfer 2019-20 i £315 miliwn.

Mae'r cyllid hwn yn ein galluogi i fodloni ein hymrwymiad yn *Ffyniant i Bawb* i barhau â'r ymgyrch i wella ymhellach safon, ansawdd a phrydlondeb triniaeth ar draws y GIG, gan sicrhau mynediad i'r gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl, a chyflawni canlyniadau iechyd da i bawb. Yn ogystal â buddsoddi yn ein staff gwerthfawr drwy weithredu cytundebau cyflog, byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn gwella perfformiad y GIG a bodloni blaenoriaethau gwasanaeth allweddol, gan gynnwys buddsoddi mewn gofal critigol.

## 7. Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)

Sefydlwyd AaGIC ar 1 Hydref 2018, ac mae'n dwyn ynghyd dri sefydliad allweddol ar gyfer iechyd - Deoniaeth Cymru, Gwasanaethau Addysg a Datblygu'r Gweithlu

(WEDS) GIG Cymru, a Chanolfan Addysg Fferyllol Cymru i Raddedigion. Bydd yr Awdurdod Iechyd Strategol yn chwarae rhan flaenllaw wrth addysgu, hyfforddi, datblygu a llunio'r gweithlu gofal iechyd yng Nghymru; cynorthwyo gofal o ansawdd uchel i bobl Cymru.


Yn 2019-20 mae cyllid gwerth £195.3 miliwn wedi'i ddyrannu i AaGIC yn cynnwys trosglwyddiadau o BEL amrywiol gan gynnwys BEL 0140 Addysg a Hyfforddiant a BEL 0186 Gweithlu. Caiff cynnydd pellach i gyllideb AaGIC ei weithredu mewn Cyllidebau Atodol yn ystod 2019-20 i adlewyrchu'r ffaith bod cyfrifoldebau'n cael eu trosglwyddo'n llawn i'r sefydliad GIG newydd.

## 8. Gwario Ataliol


Ei nod yw cymryd camau sylweddol i newid ein dull o driniaeth i atal. Wrth edrych ar ein gwariant ar atal ar gyfer y cyllidebau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol rydym wedi defnyddio'r diffiniadau canlynol y cytunwyd arnynt:

| Diffiniad | Esboniad o'r Diffiniad |
|---|---|
| **Atal Sylfaenol** | Meithrin cydnerthedd (creu'r amodau lle na fydd problemau'n codi yn y dyfodol) - **Dull cyffredinol** |
| **Atal Eilaidd** | Targedu camau gweithredu tuag at feysydd lle ceir risg uchel y bydd problem yn digwydd. - **Dull wedi'i dargedu** |
| **Atal Trydyddol** | Ymyrryd pan fydd problem, i'w atal rhag gwaethygu a'i atal rhag digwydd eto yn y dyfodol - **Dull ymyrryd** |
| **Gwariant Acíwt** | Gwariant sy'n gweithredu i reoli effaith sefyllfa negyddol iawn, ond sy'n gwneud ychydig bach, os o gwbl, i atal problemau rhag digwydd yn y dyfodol - **Dull adferol** |

Rydym wedi parhau'r gwaith i wella ein dealltwriaeth o wariant ar weithgareddau ataliol. Gan ddefnyddio'r diffiniadau uchod rydym wedi cynnal adolygiad pellach o'n cyllidebau a ddelir yn ganolog a dangosir y rhaniad canrannol yn y tabl isod:




Yn ogystal â'r uchod, am y tro cyntaf rydym wedi adolygu a mapio'r £6.1 biliwn o wariant GIG Cymru yn erbyn yr un categorïau atal. Dangosir y rhaniad canrannol dangosol dros y categorïau isod:




Y weledigaeth a sefydlwyd gennym yn *Cymru Iachach* yw rhoi mwy o bwyslais ar atal ac ymyrryd yn gynnar. Bydd y diffiniad hwn o atal, sydd bellach wedi'i fabwysiadu ar draws Llywodraeth Cymru, yn ein galluogi i fesur ein llwyddiant o ran symud adnoddau tuag at weithgareddau ataliol sylfaenol ac eilaidd wrth i ni fynd ati i gyflawni ein gweledigaeth. Byddwn yn parhau i fireinio ein dull o fesur ein gwariant ataliol mewn rowndiau cynllunio'r gyllideb yn y dyfodol. i'w hystyried fel rhan o gylchoedd cynllunio'r gyllideb yn y dyfodol.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyflawni amrywiaeth o ymgyrchoedd newid ymddygiad sy'n ceisio ysgogi newid ymddygiadol ar draws y boblogaeth. Nod y rhain yw cynyddu gweithredu cymorth er mwyn hybu iechyd, atal afiechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Mae'r ymgyrchoedd presennol yn cynnwys:

- **Pob Plentyn Cymru:** I annog newid mewn canfyddiad ymhlith y cyhoedd yng Nghymru ynghylch eu dewisiadau o ran ffordd o fyw a'u heffaith ar bwysau ac iechyd hirdymor eu plant.
- Mae **'Helpa fi i Stopio'** yn ceisio cynyddu nifer y smygwyr (sydd wedi'u cymell i roi'r gorau iddi) sy'n cael gafael ar wasanaethau rhoi'r gorau i smygu'r GIG. Mae'r ymgyrch yn cyfeirio smygwyr i'r rhif presennol a ddefnyddir gan Dim Smygu Cymru, neu wefan neu rif testun, lle bydd brysbennu cyffredin yn cyfeirio smygwyr i'r gwasanaeth sydd fwyaf addas iddyn nhw.
- **Curwch ffliw:** Codi ymwybyddiaeth o'r angen i bobl mewn grwpiau mewn perygl gael eu brechu rhag y ffliw (mis Medi tan fis Rhagfyr) ac yna rhaeadru'r neges "ei ddal, ei daflu, ei ddifa" pan fydd ffliw yn cylchredeg (mis Ionawr tan fis Mawrth).
- **Dewis Gofalus Cymru:** Annog clinigwyr a chleifion i gymryd rhan mewn sgyrsiau ynghylch gwneud penderfyniadau doeth o ran triniaeth a dewis gofal sy'n osgoi profion, triniaethau a gweithdrefnau diangen.
- **Ymwrthedd Gwrthficrobaidd:** Codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo ymddygiad sy'n torri'r defnydd diangen o wrthfiotigau, er mwyn arafu ymwrthedd. Mae'r ymgyrch yn targedu'r cyhoedd, gweithwyr iechyd proffesiynol, ffermwyr a'r proffesiwn milfeddygol.
- **Men ACWY:** Hyrwyddo'r defnydd o'r brechlyn Men ACWY ymhlith plant yn eu harddegau a myfyrwyr prifysgol newydd i amddiffyn rhag afiechyd meningococaidd grŵp W (MenW).
- **Proffylacsis cyn-gysylltiad (PrEP):** Parhau i gyllido'r astudiaeth tair blynedd o argaeledd PrEP i leihau'r risg o haint HIV1 a gafwyd yn rhywiol mewn oedolion risg uchel fel rhan o wasanaeth atal HIV ehangach
- **Buddsoddi mewn atal canser:** Dechreuodd y rhaglen imiwneiddio feirws papiloma dynol (HPV) yn 2008. Bu gostyngiad mawr o ran cyfraddau heintio'r ddau brif fath o HPV sy'n achosi canser mewn menywod a dynion drwy frechu. Eleni rydym wedi cytuno i ehangu'r rhaglen brechu HPV i fechgyn er mwyn diogelu rhag canserau'r geg a'r anws o 2019-20. Ym mis Mehefin 2019 caiff profion imiwnocemegol ysgarthol (FIT) newydd eu cyflwyno'n llawn fel y prif brawf yn y rhaglen sgrinio coluddion. Mae'r prawf yn fwy cywir a sensitif ac felly bydd yn canfod mwy o ganserau na'r profion presennol.

Rydym yn rhoi pwyslais cryfach ar faetheg, deiet a gweithgarwch corfforol ar draws y boblogaeth drwy ddatblygu strategaeth gordewdra genedlaethol – Pwysau Iach: Cymru Iach, y deddfwyd yn ei herbyn drwy ein Deddf Iechyd y Cyhoedd 2017. Bydd hyn yn canolbwyntio ar atal ac ymyrryd a byddwn yn ymgynghori yn yr hydref a chaiff strategaeth derfynol ei chyhoeddi maes o law. Bydd hon yn ystyried amrywiaeth o gynigion ar draws y llywodraeth i gynorthwyo newid yn y boblogaeth.

Ein nod yw cynyddu lefelau gweithgarwch corfforol ar draws Cymru drwy roi mwy o bwyslais ar waith drwy gyllid presennol i sbarduno newid. Mae cynllun gweithredu

gweithgarwch corfforol ar y cyd yn cael ei ddatblygu drwy Iechyd Cyhoeddus Cymru, Chwaraeon Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, a fydd yn defnyddio adnoddau a chyflawni ar y cyd. Bydd hyn yn targedu cyflawni i ddylanwadu ar newid yn y boblogaeth gyfan a cheisio lleihau lefelau o ymddygiad eisteddog ar draws y boblogaeth.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyllido'r Asiantaeth Safonau Bwyd £3.5 miliwn y flwyddyn er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd a diddordebau ehangach defnyddwyr mewn bwyd. Mae hyn yn cynnwys nodi cyfleoedd i gyflawni ymwybyddiaeth cwsmeriaid a gweithio gydag ysgolion, colegau arlwyo a lleoliadau addysgol eraill i gynyddu hyder ac ymwybyddiaeth defnyddwyr. Mae £476,000 ychwanegol wedi'i ddyrannu i'r asiantaeth dros dair blynedd er mwyn ysgogi gwaith i ddiogelu buddiannau a diogelwch defnyddwyr ar ôl gadael Ewrop.

Lansiwyd y Gronfa Iach ac Egnïol ym mis Gorffennaf, sy'n cyflawni mewn modd integredig ymrwymiadau'r Gronfa Ffyniant ar gyfer Bond Llesiant a Chronfa Her ar gyfer Chwaraeon. Maent yn cyllido partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chwaraeon Cymru ac yn gosod y pum ffordd o weithio wrth wraidd ei gynllunio, cyflawni, monitro a gwerthuso. Mae £5 miliwn ar gael dros dair blynedd, gyda'r nod o wella iechyd meddyliol a chorfforol drwy alluogi ffyrdd iach ac egnïol o fyw, gyda ffocws penodol ar gryfhau asedau cymunedol.

## 9. CYFALAF

Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn seilwaith GIG fel galluogwr allweddol ar gyfer darparu gwasanaethau cynaliadwy a hygyrch o ansawdd ac i gynorthwyo trawsnewid darpariaeth gofal iechyd. Bydd ein rhaglen dros y ddwy flynedd nesaf yn gweld darparu cyfleusterau newydd a'r ailddatblygu mewn rhai o'n hasedau mwyaf strategol.

Mae'r elfen fwyaf o gyllid wedi'i dyrannu ar gyfer adeiladu parhaus Ysbyty Athrofaol y Grange. Disgwylir i'r ysbyty o'r radd flaenaf hwn a chanddo 470 o welyau agor yn 2021. Mewn mannau eraill, mae gwaith ailddatblygu a moderneiddio sylweddol yn mynd rhagddo yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ynghyd ag uwchraddio darpariaeth newyddenedigol yn Ysbyty Singleton, Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Glangwili. Yn 2019-20, bydd gwaith yn parhau i wneud cynnydd ar ddatblygu Canolfan Ganser newydd Felindre.

Yn ogystal â chynlluniau yn y sector acíwt, mae'r gyllideb hon yn darparu £11 miliwn flwyddyn nesaf i gefnogi adeiladu Canolfan Gofal Integredig Aberteifi fel rhan o gytundeb y gyllideb gyda Phlaid Cymru.

Fel rhan o'r gyllideb hon, mae £4.5 miliwn ychwanegol wedi'i ddyrannu ar gyfer 2020-21 i sicrhau buddsoddiad o £72 miliwn dros dair blynedd i gyflawni cyfres o brosiectau gofal sylfaenol a chymunedol fel rhan o weithredu ymrwymiad Symud Cymru Ymlaen. Mae hyn yn ategu'r negeseuon allweddol a nodwyd yn Cymru Iachach - y cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol ac mae'n cyflawni'r ymrwymiad yn Ffyniant i Bawb, i fuddsoddi mewn cenhedlaeth newydd o ganolfannau iechyd a gofal integredig. Bydd y gyfres hon yn gweld 19 o brosiectau ledled Cymru yn cael eu cyflawni erbyn 2021.

Ar gyfer Cymru gyfan, mae'r gyllideb hon hefyd yn darparu £25 miliwn a £49 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf ar gyfer rhaglenni cenedlaethol ar ddatblygiadau delweddu a datblygiadau digidol a gwybodeg yn y drefn honno.

## 10. Meysydd Penodol o Bryder i'r Pwyllgor

### Sylwadaeth ar Weithredoedd a manylion am ddyraniadau Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)

Nododd y gyllideb fanwl a gyhoeddwyd ar 23 Hydref ein cynlluniau gwariant ar gyfer MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ôl BEL. Nodir dadansoddiad ac eglurhad o'r newidiadau cyllideb yn Atodiad A.

### Perfformiad ariannol byrddau iechyd lleol

- *Y diweddaraf am y pedwar bwrdd iechyd lleol sydd wedi parhau i fethu bodloni eu dyletswyddau ariannol, a sut y mae Llywodraeth Cymru yn eu cynorthwyo i wella'r sefyllfa hon.*
    - *Y cynnydd a wnaed gan bob un o'r pedwar bwrdd iechyd hyn ar gyflawni eu cynlluniau gweithredu.(Ym mis Mehefin 2018, nododd Ysgrifennydd y Cabinet fod pob bwrdd iechyd sy'n nodi diffygion ariannol yn 2017-18 wedi datblygu a chyhoeddi cynlluniau gweithredu, a bod y cynnydd ar gyflawni'r rhain yn cael ei fonitro gan Lywodraeth Cymru)*.
    - *Pa welliannau perfformiad/gwasanaeth mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl eu gweld o'r £27 miliwn o gyllid rheolaidd ychwanegol a ddarparwyd i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda o 2018-19.*

Mae'r pedwar bwrdd yn cael eu cefnogi gan Lywodraeth Cymru drwy'r Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd Mesurau Arbennig ac Ymyriad wedi'i Dargedu gyda'r byrddau iechyd unigol sy'n canolbwyntio ar berfformiad, cynllunio a chyllid. Fel rhan o'r trefniadau mae'r sefydliadau unigol yn cael cymorth, fel y cytunwyd arno gydag uwch swyddogion, gan yr Uned Gyflawni a'r Uned Cyflawni Cyllid hefyd.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y fframwaith gwella Mesurau Arbennig ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ym mis Mai 2018. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn cyflawni ei ddisgwyliadau tymor byr a thymor canolig yn gyflym, a hefyd yn cynllunio newid trawsnewidiol a'i gyflawni. Mae'r fframwaith yn nodi cerrig milltir ar gyfer y 18 mis nesaf mewn pedwar maes allweddol: arweinyddiaeth a llywodraethu; cynllunio strategol a gwasanaeth; iechyd meddwl; a gofal sylfaenol, gan gynnwys y tu allan i oriau.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth dwys, sy'n cael ei gyfeirio tuag at gynorthwyo gwell llywodraethu ac atebolrwydd, gweithio ar y cyd penodol gyda chlinigwyr a phartneriaid i gyflawni gwelliannau sylweddol, yn enwedig mewn gofal wedi'i gynllunio a heb ei drefnu, cyflawni ar amseroedd gweithredu ariannol a gweithio tuag at ddatblygu cynllun tymor canolig integredig ar gyfer 2019-2022. Mae hyn hefyd yn cynnwys cyllid ar gyfer cynyddu gallu ac adnoddau yn y sefydliad, cyllid ar gyfer yr is-adran iechyd meddwl ac anableddau dysgu i ymestyn cynllun peilot y

‘Rhaglen Gofal ac Adsefydlu Cywir’, a datblygu gallu ac adnoddau'r swyddogaeth amseroedd gweithredu a fydd yn cynnwys cryfhau rheoli'r rhaglen a'r gallu i ddadansoddi'r galw. Mae Cadeirydd y Bwrdd Iechyd newydd bellach yn cadeirio'r pwyllgor cyllid a pherfformiad i ysgogi gwelliannau yn enwedig y rhai sy'n ei gwneud yn ofynnol cael newidiadau strwythurol a gwasanaeth er mwyn sicrhau cynaliadwyedd tymor hwy.

Gwelwyd cynnydd yn y tri sefydliad o ran ymyriad wedi'i dargedu dros y 12 mis diwethaf, gyda Byrddau Iechyd Caerdydd a'r Fro a Phrifysgol Hywel Dda yn cyflawni cerrig milltir perfformiad. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn rhagweld gwelliannau sylweddol o ran eu rhagolwg ariannol, gyda'u diffyg wedi'i ragweld yn lleihau i £9.9 miliwn yn 2018-19 yn erbyn y diffyg o £26.9 miliwn yn 2017-18. Mae BIP Hywel Dda yn parhau i wynebu heriau ariannol sylweddol, er bod y dyraniad ychwanegol yn dilyn yr adolygiad cwbl gynhwysfawr diweddar wedi arwain at eu diffyg a ragwelir ar gyfer 2018-19 yn lleihau i £35.5 miliwn o'r diffyg o £69.4 miliwn yn 2017-18.

Roedd y cyllid £27 miliwn o'r adolygiad cwbl gynhwysfawr er mwyn ategu cynaliadwyedd ariannol y Bwrdd, gan gydnabod y costau ychwanegol anochel yn eu system gofal iechyd. Mae'r cynaliadwyedd ariannol hwn yn rhoi'r cyfle i'r Bwrdd ganolbwyntio ar welliannau perfformiad/gwasanaeth ar gyfer eu poblogaeth breswyl.

Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, penodwyd Prif Weithredwr newydd a bu newidiadau i'r Tîm Gweithredol. Bu gwelliant graddol o ran perfformiad gyda disgwyliad y caiff hyn ei gynnal. O ran cyllid mae eu diffyg a ragwelir ar gyfer 2018-19 wedi gostwng i £20 miliwn o'r diffyg o £32.4 miliwn yn 2017-18.

## 11. Llesiant cenedlaethau'r dyfodol

*Tystiolaeth o sut y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a'r pum ffordd o weithio wedi dylanwadu ar y dyraniadau cyllideb ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb arbennig mewn cael manylion ynghylch sut, wrth symud ymlaen, y bydd y gyllideb yn:*

- *blaenoriaethu atal/ymyrryd yn gynnar mewn iechyd a gofal cymdeithasol;*
- *cynorthwyo cyllido cynaliadwy, tymor hwy o wasanaethau gofal cymdeithasol;*
- *hyrwyddo integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol;*
- *sicrhau gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy;*
- *lleihau a rheoli'r gwariant ar staff asiantaeth;*
- *lleihau anghydraddoldebau iechyd, a sicrhau mynediad teg i wasanaethau iechyd a gofal mewn ardaloedd gwledig.*

Mae'r buddsoddiad sylweddol rydym yn ei wneud yn y gyllideb hon i ddatblygu cyflawni'r weledigaeth a nodwyd yn *Cymru Iachach* yn dangos ein hymrwymiad i flaenoriaethu atal ac ymyrryd yn gynnar. Bydd cyfran sylweddol o'r cyllid hwn yn cael ei wario y tu allan i'r sector ysbyty, gan gynorthwyo gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd sylfaenol a chymunedol i ddarparu gofal yn nes at y cartref sy'n diwallu anghenion a dewisiadau unigolion.

Mae'r adran uchod yn amlinellu sut rydym wedi defnyddio'r pum ffordd o weithio i hyrwyddo integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol, drwy fuddsoddi mewn gwasanaethau sy'n cael eu goruchwylio gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, yn ogystal â rhoi cymorth uniongyrchol i wella cynaliadwyedd gwasanaethau cymdeithasol. Rydym hefyd yn buddsoddi £10 miliwn mewn atal a gyfeirir yn genedlaethol a rhaglenni blynyddoedd cynnar, a £15 miliwn i gynorthwyo iechyd meddwl ac anableddau dysgu, gan gynnwys ein hymrwymiad i ddull ysgol gyfan o ran gwella iechyd emosiynol a meddwl plant a phobl ifanc. Rydym hefyd yn buddsoddi £60 miliwn ychwanegol mewn byrddau iechyd lleol i gynorthwyo datblygu cynlluniau integredig mwy cadarn, gyda ffocws clir ar drawsnewid gwasanaethau gofal sylfaenol.

Mae sefydlu Addysg a Gwella Iechyd Cymru, a'n buddsoddiad o £195 miliwn mewn addysg a hyfforddiant iechyd, yn dangos ein hymrwymiad i sicrhau gweithlu iechyd cynaliadwy wrth symud ymlaen, sy'n ategu ein buddsoddiad o £18 miliwn yn Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae lansio AaGIC yn dangos ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i gryfhau a chynorthwyo ein gweithlu ac mae'n anfon neges glir bod Cymru yn lle gwych i weithwyr iechyd proffesiynol hyfforddi a gweithio.

Er mwyn sicrhau bod cyllid newydd yn cael ei gyfeirio at y rhannau hynny o Gymru sydd â'r anghenion iechyd mwyaf, rydym yn adolygu'r fformiwla ddyrannu i fyrddau iechyd lleol er mwyn ystyried newidiadau o ran argaeledd data anghenion a dulliau a ddefnyddir mewn economïau iechyd eraill.

## 12. Trawsnewid

*Rhagor o wybodaeth am sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyllido trawsnewid gwasanaeth yn y tymor hwy (h.y. ar ôl oes y Gronfa Drawsnewid 2 flynedd), er mwyn sicrhau y gellir cynnal cynnydd ar yr agenda drawsnewid*.

Yn y gyllideb hon rydym wedi cyhoeddi buddsoddiad sylweddol i ddatblygu'r trawsnewid gwasanaethau sydd ei angen i gyflawni'r weledigaeth a nodwyd gennym yn *Cymru Iachach*. Mae hyn yn adeiladu ar y Gronfa Drawsnewid £100 miliwn a gyhoeddwyd gennym yn gynharach yn y flwyddyn. Ym mis Gorffennaf, cyhoeddwyd ein canllawiau i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a phartneriaid eraill ynghylch y meini prawf ar gyfer cael mynediad at y Gronfa hon, ac rwyf wedi cyhoeddi'n ddiweddar y cynigion cyntaf i'w cynorthwyo.

Rydym yn glir y bydd ein gweledigaeth ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol gwirioneddol integredig a di-dor yn cael ei chyflawni dros y blynyddoedd i ddod drwy ailganolbwyntio'r £9 biliwn y mae Cymru yn ei wario ar y GIG a gwasanaethau cymdeithasol o amgylch y Nod Pedwarplyg. Dros y ddwy flynedd nesaf bydd y Gronfa Drawsnewid yn cynorthwyo datblygu, gweithredu ac uwchraddio modelau newydd gofal yn gyflym, ond nid dyma'r unig gyllid i gynorthwyo trawsnewid, a byddwn yn sicrhau'n gynyddol bod y canlyniadau a gyflawnwn o'n holl fuddsoddiadau presennol a newydd yn gyson â gweledigaeth *Cymru Iachach*.

## 13. Digidol

*Pa asesiad sydd wedi'i wneud o gostau cyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer digidol a data, fel y disgrifir yn Cymru Iachach.*

Yn ystod 2016, gofynnwyd i'r GIG asesu costau cyflawni yn erbyn y dyheadau o fewn Iechyd a Gofal Gwybodus (a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2015). Cyfanswm eu hamcangyfrif bras oedd £484 miliwn, yn cynnwys £195 miliwn cyfalaf, a £288 miliwn refeniw. Roedd y cyfrifiadau hyn at ddibenion dangosol yn unig, ac wedi'u lledaenu dros 5 mlynedd o leiaf.

Ar hyn o bryd, mae'r gwariant refeniw ar wybodeg yng Nghymru tua 2% o gyllideb flynyddol GIG Cymru, sy'n cyfateb i tua £128 miliwn y flwyddyn. Yn ogystal, mae'r rhaglen Gyfalaf i Gymru Gyfan wedi cynorthwyo £70 miliwn o fuddsoddiad rhwng 2014-15 a 2018-19, gyda £49 miliwn arall wedi'i gynllunio rhwng 2019-20 a 2020-21. Mae'r cyllid hwn yn ogystal â datblygiadau digidol a gwybodeg lleol a gyllidir gan gyllid cyfalaf dewisol BILl ac Ymddiriedolaethau.

Mae cydrannau digidol yn rhan o fuddsoddiadau cenedlaethol eraill hefyd, er enghraifft y rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre; Canolfan Gofal Critigol Arbenigol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan buddsoddi yn natblygiad y gwasanaeth 111; cyllid Effeithlonrwydd drwy Dechnoleg a'r cronfeydd Gofal Canolraddol i gynorthwyo'r newidiadau sy'n cael eu galluogi gan raglen System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru.
Gwneir asesiadau manylach wrth i waith ar y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Gwybodeg a Chynlluniau Tymor Canolig Integredig lleol a Chynlluniau Amlinellol Strategol ddatblygu, a chaiff achosion busnes unigol eu hasesu ynghylch eu gwerth am arian.

Mae Cymru Iachach yn cydnabod digidol fel galluogwr allweddol newid trawsnewidiol. Mae hefyd yn amlinellu uchelgais Llywodraeth Cymru i ddefnyddio gwasanaethau digidol i alluogi dinasyddion i ddod yn gyfranogwyr mwy gweithredol yn eu hiechyd a'u llesiant eu hunain ac mae'n atgyfnerthu'r dyheadau yn Iechyd a Gofal Gwybodus.

## 14. Gofal sylfaenol

*Y gyllideb a ddyrennir i wasanaethau gofal sylfaenol, a sut y mae hyn yn cymharu â'r symiau a ddyrannwyd yn ystod y tair blynedd diwethaf. I ba raddau mae hyn yn cyflawni'r nod polisi o symud gofal o ysbytai i leoliadau gofal sylfaenol/cymunedol.*

Mae'r adran hon yn nodi sut y mae'r gyllideb ddrafft yn cynorthwyo gofal sylfaenol a chymunedol hygyrch a chynaliadwy yn ogystal â chyllid i alluogi ailgydbwyso'r system iechyd a gofal i gyflawni mwy o ofal yn nes at y cartref, gyda phobl dim ond yn teithio i'r ysbyty pan fo hyn yn addas ar eu cyfer. Er nad oes llinell gyllideb gyhoeddedig ar wahân ar gyfer gofal sylfaenol, mae nifer o gyllidebau ar draws y MEG yn cynorthwyo'r gwasanaethau hyn.

Mae'r cynlluniau a amlinellir isod yn cael eu hategu gan gynlluniau ar gyfer buddsoddi mewn technoleg ddigidol ar gyfer y system iechyd a gofal gyfan.

### Gofal a chymorth lleol hygyrch a chynaliadwy 24/7

Mae *Ffyniant i Bawb* a *Cymru Iachach* yn atgyfnerthu rôl clystyrau gofal sylfaenol fel dulliau ar gyfer cydweithio rhwng byrddau iechyd, awdurdodau lleol, y trydydd sector

a chontractwyr gofal sylfaenol i gynllunio a darparu gofal a chymorth di-dor i boblogaethau rhwng 25,000 a 100,000.

**Modelau gofal a chymorth di-dor dan arweiniad clystyrau**
Bydd ein buddsoddiad ychwanegol mewn cynlluniau integredig y GIG yn galluogi clystyrau gofal sylfaenol i weithredu modelau newydd o ofal di-dor er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau a aseswyd yn lleol. Bydd y modelau clwstwr hyn yn cael eu llywio gan y model gofal sylfaenol ar gyfer Cymru, sydd yn ei dro yn cynorthwyo'r weledigaeth a nodwyd yn *Cymru Iachach.*

Bydd y cyllid hefyd yn buddsoddi mewn gwaith sydd orau unwaith i Gymru, er mwyn galluogi a chynyddu maint a chyflymder cyflawni yn lleol. Mae hyn yn cynnwys gweithgarwch cenedlaethol i gyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch sut y gallant gael gafael ar ofal sylfaenol ac i hyfforddi'r gweithlu ychwanegol sydd ei angen.

**Contractau gofal sylfaenol diwygiedig**

Mae diwygio'r contractau Gofal Sylfaenol yn cynnwys pedwar llinyn o weithgarwch ar gyfer y contractwyr Gofal Sylfaenol: meddygon teulu, fferyllwyr cymunedol, deintyddion ac optometryddion. Mae gwaith yn mynd rhagddo ym mhob un o'r meysydd hyn i ddiwygio'r dull o ran y contractau, gyda themâu cyffredin yn cynnwys mynediad at y ffynhonnell gywir o gymorth i anghenion unigolyn, adeiladu ar gynllunio a chyflawni ar lefel clwstwr ar gyfer dull ataliol o ran gofal.

**Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol**

Yn 2019-20 byddwn yn parhau i gynyddu ein buddsoddiad mewn Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol. Bydd hyn yn cynnwys cynorthwyo cyflawni timau amlddisgyblaethol drwy glystyrau; newidiadau sy'n cael eu cynnig i'r gwasanaethau gwell er mwyn sicrhau dull ataliol o ran gwasanaethau a gomisiynir; cyflawni gweithio clwstwr cryfach o lawer i ddatblygu'r cam gweithredu yn Cymru Iachach a chyda'r gostyngiad yn y Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau, mae angen cyllid i sicrhau gwell llwybr clinigol a darpariaeth o ansawdd ar gyfer nifer o feysydd triniaeth. O dan y contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS), y cyfeiriad diwygio yw gweld llawer mwy o bwyslais ar ddarparu gwasanaethau drwy gydweithio ar lefel clwstwr; gan adeiladu ar yr angen am raddfa a goresgyn nifer o faterion cynaliadwyedd. Er bod gweithio mewn clwstwr gan feddygon teulu yn dal i ddatblygu, mae'r newidiadau a geisir yn cyd-fynd â'r cyfeiriad teithio hwn.

Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyflwyno cynllun wedi'i gefnogi gan y wladwriaeth i ddarparu esgeuluster clinigol i ddarparwyr gwasanaethau meddyg teulu yng Nghymru. Bwriedir i'r cynllun ddod i rym o fis Ebrill 2019. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gynllun Rhwymedigaethau'r Dyfodol a hefyd i Gynllun Rhwymedigaethau'r Presennol (h.y. rhwymedigaethau a wnaed cyn mis Ebrill 2019), yn amodol ar gwblhau diwydrwydd dyladwy cyfreithiol ac ariannol a negodi boddhaol gyda'r Sefydliadau Amddiffyn Meddygol (MDO).

Mae diwydrwydd dyladwy manwl yn cael ei wneud i asesu sefyllfa pob MDO. Bydd disgwyl i feddygon teulu gyfrannu at gostau'r cynllun sy'n cael cefnogaeth y wladwriaeth a gaiff ei drafod gyda GPC Cymru fel rhan o'r trafodaethau contract.

***Ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol:***

- Gwell mynediad priodol i feddygon teulu a gwasanaethau gofal sylfaenol eraill
- Adeiladu ar gynllunio a chyflawni o dan arweiniad clystyrau amlasiantaeth
- Gwella cynaliadwyedd arferion: Mynd i'r afael â materion eiddo ac unigolion olaf ar eiddo
- Indemniad Proffesiynol ar gyfer meddygon teulu a thimau ehangach practis a chlwstwr
- Darparu Gwasanaethau Gwell effeithiol, cyson ledled Cymru, gyda newidiadau penodol i wasanaethau gwell dethol.
- Dangos a datblygu dull gwella ansawdd mewn Ymarfer Cyffredinol
- Recriwtio, cadw a'r arallgyfeirio'r gweithlu
- Mynediad priodol i ddata er mwyn darparu ar gyfer gwell sylfaen dystiolaeth

**Fferylliaeth Gymunedol**

Byddwn yn parhau i gynnal ein buddsoddiad mewn Fferylliaeth Gymunedol yn 2019-20. Rydym wedi nodi pum blaenoriaeth allweddol ar gyfer 2018-21 ac ar ôl hynny ar gyfer trawsnewid fferylliaeth i fodloni ei rhwymedigaethau cytundebol wrth gyflawni swyddogaeth iechyd allweddol. Meithrin cydnerthedd ar y stryd fawr mewn trefi ledled Cymru i barhau i gyflawni'r gofal iechyd proffesiynol mwyaf hygyrch a phriodol i gleifion. Rydym am barhau i bwysleisio eu rôl wrth gael gafael ar ofal iechyd a pharhau i weithio gyda fferylliaeth gymunedol gan i helpu'r sector i addasu a sicrhau bod y cyfraniad hwn yn cael ei gynnal. Symud y pwyslais ar gyfer gofal iechyd i fferylliaeth gymunedol fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cleifion ac integreiddio gwasanaethau i'r gymuned gofal sylfaenol ehangach drwy glystyrau gofal sylfaenol.

Cynyddu mynediad ymhellach i wasanaethau gofal iechyd y GIG a darparu amrywiaeth ehangach o wasanaethau clinigol mewn fferylliaeth gymunedol - i harneisio'r hygyrchedd hwn, ynghyd â sgiliau cyffredinol gweithwyr proffesiynol fferylliaeth er mwyn darparu gwelliannau ystyrlon wrth gael mynediad at ofal brys a gofal heb ei drefnu.

**Ein *blaenoriaethau allweddol ar gyfer Fferylliaeth Gymunedol:***

- Mynediad i atgyfeiriadau electronig ac un cofnod electronig am gleifion sy'n cael ei rannu.
- Gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o wella ansawdd wedi'i ymgorffori mewn fferylliaeth gymunedol drwy drefniadau cytundebol.
- Fferyllwyr cymunedol yn parhau i roi diagnosis o amrywiaeth ehangach o salwch acíwt a'i drin, gan leihau'r pwysau ar rannau eraill o'r GIG.
- Fferyllwyr cymunedol yn cael mynediad at gofnod Meddyg Teulu Cymru yn genedlaethol ac ar draws yr holl wasanaethau lle bydd mynediad o'r fath yn

hwyluso fferyllwyr i fodloni'r galw am ofal brys a gofal heb ei drefnu yn ddiogel ac yn effeithiol.

- Cyfathrebu â'r cyhoedd a gweithredu gan wasanaethau iechyd eraill yn hyrwyddo'n gyson rôl fferylliaeth gymunedol fel man galw cyntaf dinasyddion ar gyfer trin anhwylderau cyffredin a chael cyngor ar feddyginiaethau.

Mae'r rhain yn adlewyrchu newid mewn cyfeiriad polisi, gan gefnogi cyflawni a diwygio'r contract drwy newid system gyfan sy'n canolbwyntio ar iechyd a llesiant.

**Deintyddiaeth**

Rydym wedi nodi pum blaenoriaeth allweddol ar gyfer 2018-21 ac ar ôl hynny ar gyfer trawsnewid deintyddiaeth:

- mynediad amserol i ofal deintyddol y GIG sy'n canolbwyntio ar atal;
- newid cynaliadwy a system gyfan wedi'i ategu gan ddiwygio contract;
- timau sydd wedi'u hyfforddi, eu cefnogi ac sy'n darparu gofal o ansawdd sy'n seiliedig ar werth;
- gwybodaeth a thystiolaeth am iechyd y geg sy'n ysgogi gwelliant; a
- gwella iechyd a llesiant y boblogaeth.

Mae'r rhain yn adlewyrchu newid mewn cyfeiriad polisi, gan gynorthwyo cyflawni a diwygio'r contract deintyddol drwy newid system gyfan sy'n canolbwyntio ar iechyd a llesiant, gyda dull ataliol o ran gofal. Wrth wraidd y newid mae'r angen am fodelau newydd o ofal i gynorthwyo dull sy'n canolbwyntio mwy ar gleifion a mwy o ddefnydd o gymysgedd sgiliau.

**Optometreg Gymunedol**

Rydym wedi nodi pum blaenoriaeth allweddol ar gyfer 2018-21 ac ar ôl hynny ar gyfer trawsnewid optometreg i fodloni ei rwymedigaethau cytundebol wrth gyflawni swyddogaeth iechyd allweddol. Meithrin cydnerthedd ar y stryd fawr mewn trefi ledled Cymru er mwyn parhau i gyflawni'r gofal iechyd llygaid proffesiynol mwyaf hygyrch a phriodol i gleifion. Rydym am barhau i bwysleisio eu rôl o ran cael mynediad i ofal iechyd llygaid a pharhau i weithio gydag optometreg gymunedol gan helpu'r sector i addasu a sicrhau bod y cyfraniad hwn yn cael ei gynnal. Symud y pwyslais ar gyfer gofal iechyd llygaid i optometreg gymunedol fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer claf â phroblem llygaid ac integreiddio gwasanaethau i'r gymuned gofal sylfaenol ehangach drwy glystyrau gofal sylfaenol.

Cynyddu mynediad ymhellach i wasanaethau gofal iechyd llygaid y GIG a darparu amrywiaeth ehangach o wasanaethau clinigol mewn optometreg gymunedol - darparu gwasanaeth gofal llygaid mwy integredig rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd ar gyfer gofal iechyd llygaid wedi'i drefnu a heb ei drefnu.

***Blaenoriaethau Allweddol ar gyfer Optometreg***

- Mynediad i atgyfeiriadau electronig ac un cofnod electronig am gleifion sy'n cael ei rannu.
- Cyfathrebu â'r cyhoedd yn gyson i hyrwyddo rôl ymarfer optometreg gymunedol gan hyrwyddo'n gyson rôl optometreg gymunedol - Meddygon y llygaid.
- Optometryddion rhagnodi annibynnol yn cael eu cyflwyno ar draws clystyrau gofal sylfaenol.
- Lleoliadau mewn adrannau llygaid ysbytai i gyflawni cymwysterau uwch mewn retina meddygol, glawcoma, rhagnodi annibynnol ac arweinyddiaeth.
- Gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o wella ansawdd wedi'i ymgorffori mewn optometreg gymunedol drwy drefniadau cytundebol.

Mae'r rhain yn adlewyrchu newid mewn cyfeiriad polisi, gan gynorthwyo darparu a diwygio'r contract drwy newid system gyfan sy'n canolbwyntio ar iechyd a llesiant, gyda dull ataliol o ran gofal.

**Mwy o ofal yn nes at y cartref**

**Gofal wedi'i gynllunio**

**Ar gyfer gofal llygaid**, rydym yn buddsoddi £4 miliwn gan gwmpasu'r cyfnod mis Tachwedd 2018 tan fis Mawrth 2020 i ddatblygu gwasanaeth cynaliadwy a gweithredu mesur newydd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Caiff y buddsoddiad hwn ei ddefnyddio er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu datblygu gyda gofal sylfaenol a bod y newidiadau llwybr angenrheidiol yn cael eu gweithredu. Byddai hyn yn cael ei ddefnyddio er mwyn sicrhau bod gallu ac adnoddau ychwanegol o fewn gwasanaethau cymunedol yn cael eu datblygu gan gynnwys ehangu canolfannau triniaeth diagnostig offthalmig ac uwchsgilio staff heblaw am feddygon ymgynghorol i weld cleifion priodol yn y lleoliadau cywir. Bydd y rhain yn newidiadau cynaliadwy, wedi'u hategu gan weithredu'r llwybr cataract darbodus a fydd yn arwain at arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol. Byddai'n ofynnol i fyrddau iechyd gyflwyno eu cynlluniau cynaliadwyedd i'r Bwrdd Gofal wedi'i Gynllunio Offthalmig cyn bod unrhyw arian yn cael ei ddyrannu. Byddai'r buddsoddiad hwn yn cael ei gymryd yn ôl os na fyddai'r cynlluniau a'r mesurau newydd yn cael eu gweithredu erbyn dyddiad y cytunwyd arno.

**Ar gyfer gwasanaethau awdioleg,** rydym wedi nodi tair blaenoriaeth allweddol ar gyfer 2018-21 ac ar ôl hynny ar gyfer trawsnewid awdioleg i fodloni ei rhwymedigaethau o ran cyflawni swyddogaeth iechyd allweddol. Meithrin cydnerthedd mewn trefi ledled Cymru i barhau i ddarparu'r gofal iechyd mwyaf hygyrch a phriodol ar gyfer cleifion. Rydym am barhau i bwysleisio eu rôl o ran cael mynediad i ofal iechyd a pharhau i weithio gydag adrannau awdioleg gan helpu'r sector i addasu a sicrhau bod y cyfraniad hwn yn cael ei gynnal. Symud y pwyslais ar gyfer gofal iechyd y clyw i awdioleg gymunedol fel y pwynt cyswllt cyntaf i glaf a chanddo broblem gyda'r clyw ac integreiddio gwasanaethau i'r gymuned gofal sylfaenol ehangach drwy glystyrau gofal sylfaenol.

Cynyddu mynediad o ddau i'r saith cyfan mewn gwasanaethau bwrdd iechyd y GIG a darparu amrywiaeth eang o wasanaethau clinigol mewn awdioleg gymunedol -

darparu gwasanaethau mwy integredig rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd ar gyfer gofal iechyd y clyw wedi'i drefnu a heb ei drefnu.

***Blaenoriaethau Allweddol***

- Mynediad at awdioleg drwy fynediad uniongyrchol i gleifion mewn ardaloedd clwstwr gofal sylfaenol.
- Symud gwasanaethau o ofal eilaidd i ofal sylfaenol er mwyn gwella ansawdd a mynediad i gleifion; ymgorffori gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ledled Cymru.
- Cyfathrebu â'r cyhoedd yn gyson i hyrwyddo rôl awdioleg gymunedol gan hyrwyddo'n gyson rôl uwch ymarferwyr.

Mae'r rhain yn adlewyrchu newid o ran cyfeiriad polisi, gan gynorthwyo cyflawni a diwygio'r ddarpariaeth gofal eilaidd bresennol drwy newid y system gyfan gan ganolbwyntio ar iechyd a llesiant.

**Gofal brys**

Yng ngoleuni’r pwysau hysbys a wynebir yn ystod misoedd y gaeaf a'r angen i ddarparu sefydlogrwydd i'r system bresennol o ddarparu cyngor clinigol i gleifion y tu allan i oriau, mae dau gynllun peilot yn cael eu hystyried.

Cynigir cynnal peilot ar wahân wedi'i anelu at bractisau meddygon teulu i agor ar gyfer sesiynau wedi'u penderfynu ymlaen llaw dros gyfnod y Nadolig/Flwyddyn Newydd. Yn ogystal, bydd peilot arall wedi'i anelu at weithio lefel clwstwr yn rhedeg am ffenestr 4 mis i brofi sut y gall contractwyr Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol gynorthwyo gwasanaeth y Tu Allan i Oriau. Mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu bod mwy o awydd i gontractwyr Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol agor eu safleoedd eu hunain am amser ychwanegol, yn hytrach nag ymgymryd â sifftiau mewn lleoliadau y Tu Allan i Oriau traddodiadol.

Mae'r ddau gynllun peilot wedi'u trafod gyda Chyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol a Chyfarwyddwyr Meddygol Cynorthwyol, sy'n cefnogi'r gweithgarwch hwn. Cynhaliwyd trafodaethau hefyd gyda GPC Cymru, nad oes ganddynt rôl drafod ffurfiol ar gyfer peilot ac maent wedi cytuno i arsylwi.

**Gwneud y defnydd gorau o dechnoleg ddigidol ar gyfer gofal di-dor**

Bydd y defnydd o dechnoleg ddigidol yn rhoi mwy o reolaeth i bobl ac yn eu galluogi i ddod yn gyfranogwyr mwy gweithredol yn eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Byddwn yn cyflymu cynnydd tuag at greu llwyfan digidol ar-lein ac Ap ategol a fydd yn trawsnewid y ffordd y mae ein dinasyddion yn cael mynediad i'n gwasanaethau iechyd a gofal ac yn rhyngweithio â nhw. Bydd hyn yn helpu pobl i wneud dewisiadau hyddysg am eu triniaeth, gofal a chymorth eu hunain: dod o hyd i'r gwasanaeth mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion, cyfrannu at wybodaeth am eu hiechyd a gofal a rhannu hyn, rheoli apwyntiadau a chyfathrebu â gweithwyr proffesiynol, a gweithio gydag eraill i gydlynu'r gofal a'r driniaeth sydd eu hangen

arnynt, fel bod hyn yn cael ei ddarparu'n ddi-dor. Mae digidoleiddio 111 yn un agwedd allweddol ar hyn.

## 15. Iechyd meddwl ac anableddau dysgu

*Blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer y tair blynedd nesaf. Dyraniadau/gwariant rhagamcanol ar gyfer darparu'r rhain. Pa ddulliau a ddefnyddir i olrhain gwariant ar iechyd meddwl i ganlyniadau cleifion.*

Ceir £15 miliwn ar gyfer iechyd meddwl ac anableddau dysgu. Mae disgwyliad y bydd cymorth pellach ar gael i iechyd meddwl plant a'r dull rhaglen 'ysgol gyfan' sy'n cael ei arwain ar y cyd gan addysg. Rydym hefyd wedi nodi gwaith pellach i'w wneud gyda chydweithwyr ym maes tai er mwyn mynd i'r afael ag anghenion iechyd meddwl y rhai sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o golli'u cartrefi.

Mae blaenoriaethau eraill a nodwyd yn cynnwys cymorth i ddementia, rheoli'r galw cynyddol o fewn gwasanaethau amenedigol, gofal iechyd mewn carchardai, datblygu cymorth argyfwng ymhellach a chymorth canolog ar gyfer rhaglen Gwella Bywydau anableddau dysgu

Byddwn hefyd yn cynyddu'r cyllid sydd wedi'i glustnodi ar gyfer iechyd meddwl mewn byrddau iechyd lleol £20 miliwn fel rhan o'r ymrwymiad a wnaethom yng Nghytundeb Cyllideb 2018-19.

Caiff effaith y gwariant hwn ei mesur drwy'r broses Cynllun Tymor Canolog Integredig a monitro cynnydd yn erbyn gweithredu cynlluniau cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl i ategu ein strategaeth.

**Atodiad A**

**Sylwadaeth ar bob un o'r Gweithredoedd yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys dadansoddiad ac esboniad o newidiadau rhwng Cyllideb Ddrafft 2019-20 a'r Gyllideb Atodol Gyntaf (Mehefin 2018).**

Yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, rydym wedi adolygu strwythur cyllideb y BEL ac wedi sefydlu dwy BEL newydd o'r enw:

**Addysg a Gwella Iechyd Cymru**

BEL newydd i ddarparu'r cyllid ar gyfer y corff GIG newydd – AaGIC a sefydlwyd ar 1 Hydref 2018 ac sy'n dwyn ynghyd dri sefydliad allweddol ar gyfer iechyd – Deoniaeth Cymru, Gwasanaethau Addysg a Datblygu Gweithlu GIG Cymru (WEDS), a Chanolfan Addysg Fferyllol Cymru i Raddedigion. Bydd yr Awdurdod Iechyd Strategol yn chwarae rhan flaenllaw wrth addysgu, hyfforddi, datblygu a llunio'r gweithlu gofal iechyd yng Nghymru; cynorthwyo gofal o ansawdd uchel i bobl Cymru.

**Cymru Iachach**

BEL newydd yw hon sydd wedi ychwanegu £192 miliwn y flwyddyn nesaf i gyflawni'r weledigaeth yn ein Cynllun. Ein partneriaid cyflawni – y GIG, awdurdodau lleol, y trydydd sector a phartneriaid eraill – sydd yn y sefyllfa orau i ddatblygu arloesi a chydlynu lleol o ran darpariaeth gwasanaeth i ategu ein gweledigaeth. Dangosir y cyllid hwn ar wahân i'r cynnydd yn y cyllid craidd i'r GIG.

| **Cam Gweithredu: Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd** | | |
|---|---|---|
| **2018-19 Cyllideb Atodol Mehefin 2018 £m** | **Cyllideb Ddrafft 2019-20 £m** | **Newid £m** |
| 6,904.793 | 7,404.337 | 499.544 |

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cynorthwyo'r prif gyllid i'r GIG yng Nghymru yn ogystal â chyllid i Iechyd Cyhoeddus Cymru a chorff newydd y GIG, sef Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

**Esboniad o Newidiadau i'r Cam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd**

- £220.000 miliwn o gyllid ychwanegol i'r GIG
- £94.600 miliwn Cyllid Agenda ar gyfer Newid (rhan o £287 miliwn o gyllid ychwanegol)
- £195.322 miliwn trosglwyddiadau AaGIC i greu BEL newydd
- (£1.267 miliwn) trosglwyddiadau cyllideb AaGIC yn y Weithred
- (£9.111 miliwn) trosglwyddiadau a newidiadau llinell sylfaen rheolaidd (a weithredwyd yn flaenorol ar sail nad ydynt yn rheolaidd)

| Cam Gweithredu: Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu | | |
|---|---|---|
| **2018-19 Cyllideb atodol Mehefin 2018 £m** | **Cyllideb Ddrafft 2019-20 £m** | **y newid £m** |
| 7.068 | 185.620 | 178.552 |

Mae'r cam gweithredu hwn yn cynorthwyo cyllidebau iechyd amrywiol eraill gan gynnwys Gweithlu'r GIG (nad yw'n cael ei throsglwyddo i AaGIC ar hyn o bryd), a hefyd yn cynnwys y BEL newydd, *Cymru Iachach.*

**Esboniad o Newidiadau i Gam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu**

- £192.400 miliwn i BEL newydd ar gyfer *Cymru Iachach* (rhan o £287 miliwn o gyllid ychwanegol)
- (£1.981 miliwn) trosglwyddiadau cyllideb AaGIC
- (£11.867 miliwn) trosglwyddiadau a newidiadau llinell sylfaen rheolaidd (a weithredwyd yn flaenorol ar sail nad ydynt yn rheolaidd)

| Cam Gweithredu: Cefnogi Addysg a Hyfforddiant yng Ngweithlu'r GIG | | |
|---|---|---|
| **2018-19 Cyllideb Atodol Mehefin 2018 £m** | **Cyllideb Ddrafft 2019-20 £m** | **y newid £m** |
| 216.496 | 25.715 | (190.781) |

Mae addysg a hyfforddiant yn hanfodol i sicrhau gwasanaethau GIG cynaliadwy yn y dyfodol. Mae'r cam gweithredu hwn yn ategu amrywiaeth o weithgareddau a gynhelir i gynorthwyo â'r gwaith o sicrhau gweithlu cynaliadwy sy'n meddu ar y sgiliau i fynd i'r afael â'r gofynion ar y gwasanaeth yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid yn y cam gweithredu hwn yn cwmpasu'r costau ychwanegol yr eir iddynt gan Fyrddau Iechyd Prifysgol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru ar gyfer addysgu (cynnal) myfyrwyr meddygol a deintyddol fel rhan o'u hastudiaethau israddedig. Yn ogystal, mae'n cynorthwyo hyfforddi nifer o leoedd hyfforddi ôl-raddedig ledled Cymru, gan gynnwys swyddi academaidd clinigol. Mae cyllid yn y cam gweithredu hwn hefyd yn cynorthwyo gwobrau rhagoriaeth glinigol Ymgynghorwyr a roddir am ansawdd, rhagoriaeth a chyfraniadau personol eithriadol

**Esboniad o Newidiadau i Gam Gweithredu Cefnogi Addysg a Hyfforddiant yng Ngweithlu'r GIG**

- (£192.074 miliwn) trosglwyddiadau cyllideb AaGIC i'r BEL AaGIC newydd
- £1.293 miliwn trosglwyddiadau ac addasiadau llinell sylfaen rheolaidd

| **Cam Gweithredu: Cefnogi Polisïau a Deddfwriaeth Iechyd Meddwl** | | |
|---|---|---|
| **2018-19 Cyllideb atodol Mehefin 2018 £m** | **Cyllideb Ddrafft 2019-20 £m** | **y newid £m** |
| 3.279 | 3.279 | - |

Mae'r Cam Gweithredu hwh yn cynorthwyo amrywiaeth o'r canlynol

- Datblygu a chyflawni polisi iechyd meddwl, gan gynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), therapïau seicolegol, atal hunanladdiad a hunan-niweidio, cymorth a chyllid iechyd meddwl amenedigol i sefydliadau'r trydydd sector, drwy grant iechyd meddwl adran 64

- Deddfwriaeth iechyd meddwl, gan gynnwys Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid

- Anghenion gofal iechyd grwpiau agored i niwed, (y rhai y diffiniwyd bod ganddynt nodweddion gwarchodedig) gan gynnwys ceiswyr lloches a ffoaduriaid, cymorth i gyn-filwyr, gofal iechyd troseddwyr, canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol, sipsiwn a theithwyr ac unigolion trawsryweddol.

Mae'r cyllid yn parhau ar yr un lefel â Chyllideb Atodol mis Mehefin.

| **Cam Gweithredu: Cyflawni Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau** | | |
|---|---|---|
| **2018-19 Cyllideb Atodol Mehefin 2018 £m** | **Cyllideb Ddrafft 2019-20 £m** | **y newid £m** |
| 26.475 | 26.475 | - |

Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid camddefnyddio sylweddau yn y cam gweithredu hwn (£22.663 miliwn) yn cael ei ddyrannu i Fyrddau Cynllunio Ardal drwy fformiwla gyllido i'w helpu i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn ein Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed' a Chynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau 2016-18.

O dan y gyllideb hon, mae £2.75 miliwn, £1 filiwn a £0.300 miliwn o'r cyllid i Fyrddau Cynllunio Ardal wedi'i glustnodi ar gyfer plant a phobl ifanc, Haen 4 (ailsefydlu preswyl a dadwenwyno cleifion mewnol) a gwasanaethau cwnsela yn y drefn honno.

Mae'r cyllid yn ategu dyraniadau camddefnyddio sylweddau'r Bwrdd Iechyd Lleol (tua £18 miliwn) ac fe'i defnyddir i gomisiynu/prynu amrywiaeth o fentrau addysg, atal, trin a gorfodi.

Mae gweddill y cyllid yn y Cam Gweithredu yn cynorthwyo'r canlynol:

- Rhaglen Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan (£1.98 miliwn) - nod y rhaglen yw gweithredu mewn 100% o ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru i gyflawni addysg camddefnyddio sylweddau cyson ym mhob cyfnod allweddol y cwricwlwm.
- Mentrau Cyffuriau ac Alcohol (£1.002 miliwn) – mae'r gyllideb hon yn cynnwys nifer o feysydd gwaith sy'n gweithredu Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau 2016-18, drwy ymchwil, datblygu polisi a monitro gwaith sy'n gysylltiedig ag ymyriadau cyffuriau ac alcohol. Mae hefyd yn cynorthwyo gwaith ac adnoddau ar gyfer Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru), a fydd wrth symud ymlaen yn cynnwys costau cysylltiedig ar gyfer cyfathrebu, gwerthuso a gweithredu.
- Mae hefyd yn cynnwys cyfraniad arian cyfatebol o £0.830 miliwn i'r Gwasanaeth Mentora Cymheiriaid Di-waith – un o brosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop a gyllidir ar y cyd ag Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Esboniad o'r Newidiadau i Gyflawni Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau**

Nid oes newid i'r cam gweithredu hwn dros Gyllideb Atodol mis Mehefin ond o gymharu â chyllideb 2019-20 yn ôl Cyllideb Derfynol 2018-19 mae cynnydd o £1,980 miliwn. Mae hyn o ganlyniad i gyllid ar gyfer Rhaglen Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan yn cael ei adfer ar ôl cael ei ddileu yng Nghyllideb Ddrafft y llynedd.

| Cam Gweithredu:Yr Asiantaeth Safonau Bwyd | | |
|---|---|---|
| **2018-19 Cyllideb atodol Mehefin 2018 £m** | **Cyllideb Ddrafft 2019-20 £m** | **y newid £m** |
| 3.516 | 3.712 | 0.196 |

Mae'r Cam Gweithredu yn darparu cyllid ar gyfer Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) Cymru. Mae'r ASB yn cael cyllid gwerth £3.516 miliwn yn flynyddol. Mae'r swm hwn yn cynnwys cyllid wedi'i glustnodi gwerth £0.490 miliwn i'r ASB fwrw ymlaen gyda gwaith gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid

Darperir y dyraniad cyllideb hwn i dalu am gost y blaenoriaethau gwaith a nodir yng ‘Nghytundeb Darparu Gwasanaeth FSA Cymru’ eang yr ASB. Darperir y cyllid ar y sail lle ceir diddordeb ar y cyd bydd FSA Cymru yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i ddatblygu ei blaenoriaethau, gan gynnwys cymorth parhaus wrth gyflwyno a gweithredu cynllun sgôr hylendid bwyd statudol yng Nghymru, fel y sefydlwyd gan

Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013. Yn ogystal, y bydd anghenion Cymru yn cael eu hystyried yn unol â Datganiad Sefyllfa Llywodraeth Cymru mewn ymateb i ‘Reoleiddio Ein Dyfodol’ wrth i'r ASB ddatblygu ei rhaglen o ddiwygio rheoleiddio.

**Esboniad o Newidiadau i'r Cam Gweithredu Asiantaeth Safonau Bwyd**

- Mae'r £0.196 milliwn ychwanegol mewn perthynas â chyllid ychwanegol gan Gronfa Drosiannol yr UE i gynorthwyo costau staff ychwanegol i gynorthwyo paratoadau ASB Cymru i adael yr UE.

| **Cam Gweithredu:Rhaglenni Iechyd y Cyhoedd** | | |
|---|---|---|
| **2018-19 Cyllideb Atodol Mehefin 2018 £m** | **Cyllideb Ddrafft 2019-20 £m** | **Newid £m** |
| 19.795 | 19.639 | (156) |

Mae'r cam gweithredu hwn yn cyllido amrywiaeth o raglenni iechyd y cyhoedd fel:

- Trawsblannu Organau a Meinwe
- Imiwneiddio
- Taliadau i Iechyd Cyhoeddus Lloegr sy'n darparu nifer o wasanaethau diogelu iechyd arbenigol a rhai gwasanaethau labordy cyfeirio i Gymru.
- Cychwyn Iach
- NICE

**Esboniad o Newidiadau i Raglenni Iechyd y Cyhoedd**

- (£0.156 miliwn) trosglwyddiadau a newidiadau llinell sylfaen rheolaidd (a weithredwyd yn flaenorol ar sail nad ydynt yn rheolaidd)

| **Cam Gweithredu:Trefniadau Effeithiol ar gyfer Parodrwydd am Argyfyngau Iechyd** | | |
|---|---|---|
| **2018-19 Cyllideb Atodol Mehefin 2018 £m** | **Cyllideb Ddrafft 2019-20 £m** | **Newid £m** |
| 6.059 | 6.025 | (0.034) |

Mae'r cam gweithredu hwn yn galluogi Llywodraeth Cymru i sicrhau bod GIG Cymru wedi paratoi'n llawn ac yn gallu gwrthsefyll yr amrywiaeth llawn o beryglon a bygythiadau a nodwyd mewn Asesiadau Risg Cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys y risg uchaf o ffliw pandemig a rheoli canlyniadau iechyd digwyddiad terfysgol sy'n cynnwys deunyddiau peryglus.

**Esbonio Newidiadau i Drefniadau Effeithiol ar gyfer Parodrwydd am Argyfyngau Iechyd**

- (£0.034 miliwn) trosglwyddiadau a newidiadau llinell sylfaen rheolaidd (a weithredwyd yn flaenorol ar sail nad ydynt yn rheolaidd)

| Cam Gweithredu:Datblygu a Gweithredu Ymchwil a Datblygu er Budd Cleifion a'r Cyhoedd | | |
|---|---|---|
| **2018-19 Cyllideb atodol Mehefin 2018 £m** | **Cyllideb Ddrafft 2019-20 £m** | **Newid £m** |
| 42.505 | 42.075 | (0.430) |

Mae'r cam gweithredu hwn yn cynorthwyo gwaith Is-adran Ymchwil a Datblygu Llywodraeth Cymru sy'n eistedd yn yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac sy'n arwain ar strategaeth, polisi, comisiynu, cyllido, rheoli contract a llywodraethu ymchwil a datblygu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Drwy ei ‘brand allanol’, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, mae'r Is-adran Ymchwil a Datblygu yn darparu seilwaith i gynorthwyo a chynyddu gallu ac adnoddau ym maes ymchwil a datblygu, yn cynnal amrywiaeth o gynlluniau cyllid ymatebol ac yn rheoli adnoddau i hyrwyddo, cefnogi a chyflawni ymchwil. Mae hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau partneriaeth a thrawsgyllido lle mae'r rhain yn dwyn manteision i Gymru. Mae'n cynorthwyo ymchwil drosiadol gyda ffocws penodol ar ymchwil gymhwysol ac iechyd y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys ymchwil i atal a chanfod clefyd a rhoi diagnosis ohono; datblygu a gwerthuso ymyriadau; a darparu a threfnu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.  Mae'r Is-adran hefyd yn gweithio i gynorthwyo wrth roi canfyddiadau ymchwil ar waith.

Mae gan yr Is-adran berthnasoedd allweddol o fewn Llywodraeth Cymru gyda thimau Gwyddorau Bywyd ac Arloesi Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru a'r Adran Addysg a Sgiliau. Mae'r Is-adran hefyd yn gweithio'n agos iawn gyda chydweithwyr a chanddynt rolau tebyg yng ngwledydd eraill y DU, cynghorau ymchwil y DU, cyllidwyr ymchwil eraill a'r Comisiwn Ewropeaidd.

**Esboniad o'r Newidiadau i Ddatblygu a Gweithredu Ymchwil a Datblygu er Budd Cleifion a'r Cyhoedd**

- (£0.430 miliwn) trosglwyddiadau a newidiadau llinell sylfaen rheolaidd (a weithredwyd yn flaenorol ar sail nad ydynt yn rheolaidd)

| Cam Gweithredu:Gofal a Chymorth Cymdeithasol | | |
|---|---|---|
| **2018-19 Cyllideb atodol Mehefin 2018 £m** | **Cyllideb Ddrafft 2019-20 £m** | **Newid £m** |
| 3.462 | 4.562 | 1.100 |

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu cyllid ar gyfer Diogelu ac Eiriolaeth a Gofalwyr Pobl Hŷn a Phobl ag Anableddau.

Mae'r rhaglen waith ar gyfer Diogelu ac Eiriolaeth Oedolion, yn bennaf, yn cynorthwyo gweithredu parhaus Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014) ac mae'n hyrwyddo agenda ataliol i wella canlyniadau i blant ac oedolion mewn perygl. Yn 2019-20 bydd gweithredu'r NPP (Gweithdrefnau Diogelu Cymru bellach) yn flaenoriaeth, gan gynorthwyo Byrddau Diogelu Rhanbarthol i ddatblygu hyn, ynghyd â chymorth parhaus i NISB. Mae rôl Byrddau Diogelu yn cwmpasu atal ac amddiffyn i blant ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, esgeuluso neu fathau eraill o niwed.

Mae hefyd yn cyllido rhaglenni gwaith i gynorthwyo gofalwyr i gyflawni eu rolau fel gofalwyr wrth gynnal eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Mae hyn yn ganolog i sicrhau bod yr hawliau i ofalwyr yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol wrth gynorthwyo gofalwyr ac mae'n cynnwys elfen gref o fuddsoddi i arbed oherwydd amcangyfrifir bod gofalwyr anffurfiol, di-dâl yn darparu 96% o'r gofal yng Nghymru, gofal a fyddai fel arall yn gorfod cael ei ddarparu o gyllidebau gofal cymdeithasol.

Cyllid i gynorthwyo datblygu rhaglenni i wella cyfleoedd bywyd pobl anabl ac yn arbennig y Rhaglen Gwella Bywydau i Bobl ag Anabledd Dysgu, a lansiwyd ym mis Mehefin 2018. Mae cyllid hefyd yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu gweithredoedd yn y Fframwaith Gofal a chymorth integredig ar gyfer pobl sy'n Fyddar neu sy'n byw â cholled clyw.

Mae'r Cyllid hefyd yn cynorthwyo'n rhannol y gwaith o gyflawni Cynllun Gweithredu Strategol ASA 2016 a'r cynllun cyflawni, gan gynnwys cymorth i'r Tîm Datblygu Cenedlaethol ASA a gynhelir gan CLlLC i gynorthwyo cyflawni'r blaenoriaethau strategol. Bydd hyn yn cynnwys cyngor mewn perthynas â hynt Bil Awtistiaeth (Cymru) a gyflwynwyd i'r Cynulliad ym mis Gorffennaf 2018.

**Esboniad o Newidiadau i'r Cam Gweithredu Gofal a Chymorth Cymdeithasol**

- Mae ychwanegu £0.550 miliwn i'r Cam Gweithredu hwn o ganlyniad i drosglwyddo'r gyllideb ar gyfer eiriolaeth Plant o'r Cam Gweithredu Cefnogi Plant.
- £0.550 miliwn ychwanegol MEG i MEG o'r trosglwyddiad Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â'r cyllid Dull Cenedlaethol Eiriolaeth

| Cam Gweithredu:Partneriaethau ac Integreiddio | | |
|---|---|---|
| **2018-19 Cyllideb atodol Mehefin 2018 £m** | **Cyllideb Ddrafft 2019-20 £m** | **Newid £m** |
| 0.606 | 0.606 | - |

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu cyllid i gynorthwyo ag integreiddio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn ogystal mae hefyd yn cyllido gwelliannau i gyngor a chanllawiau ar ofal iechyd parhaus a ddylai helpu pobl i gael mynediad i'r cymorth sydd ei angen arnynt i ddiwallu eu hanghenion iechyd. Mae hefyd yn cynorthwyo ystyried ardoll gofal cymdeithasol gan gyfrannu at nodau llesiant Cymru ffyniannus a chydnerth drwy ystyried opsiynau i ddarparu'r cyllid disgwyliedig sy'n ofynnol yn y dyfodol i ateb y galwadau cynyddol am ofal cymdeithasol yn sgil poblogaeth sy'n heneiddio.

Mae'r cyllid yn parhau ar yr un lefel â Chyllideb Atodol mis Mehefin.

| Cam Gweithredu:Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy | | |
|---|---|---|
| **2018-19 Cyllideb atodol Mehefin 2018 £m** | **Cyllideb Ddrafft 2019-20 £m** | **Newid £m** |
| 11.215 | 11.315 | 0.100 |

Mae mwyafrif y Cam Gweithredu hwn (£6.8 miliwn) yn cyllido’r Grant i’r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Mae 32 o brosiectau yn cael eu cefnogi yn dilyn cylch bidio cystadleuol sy'n cefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, pobl hŷn, pobl anabl a gofalwyr

Defnyddir gweddill y cyllid yn y Cam Gweithredu hwn (£4.5 miliwn) i gynorthwyo cyflawni Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gweithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol sy'n darparu'r newidiadau sy'n ofynnol i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru sy'n gwella llesiant ac yn rhoi pobl a'u hanghenion wrth wraidd pob gofal a chymorth. Mae ein hegwyddorion yn cynnwys meithrin arfer sy'n hyrwyddo llais a rheolaeth, annibyniaeth, cyd-gynhyrchu, gofal sy'n canolbwyntio ar y person a dulliau atal ac ymyrryd yn gynnar.

**Esboniad o'r Newidiadau i'r Cam Gweithredu Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy**

- Mae'r £0.100 miliwn o ganlyniad i gyllid nad yw'n rheolaidd mewn perthynas ag Anabledd Cymru

| Cam Gweithredu:Gofal Cymdeithasol Cymru | | |
|---|---|---|
| **2018-19 Cyllideb atodol Mehefin 2018 £m** | **Cyllideb Ddrafft 2019-20 £m** | **Newid £m** |
| 18.038 | 18.038 | - |

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu cyllid cymorth grant i Ofal Cymdeithasol Cymru, sef Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.
Mae Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) yn cael ei gyllido i reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol, adeiladu hyder yn y gweithlu, ac arwain a chynorthwyo gwelliant mewn gofal cymdeithasol.

**Ymhlith y blaenoriaethau allweddol mae:**

- pennu safonau ar gyfer y gweithlu gofal a chymorth, gan ei wneud yn atebol am ei waith
- datblygu'r gweithlu fel bod ganddo'r wybodaeth a'r sgiliau i ddiogelu, grymuso a chynorthwyo'r rhai y mae angen help arnynt
- gweithio gydag eraill i wella gwasanaethau ar gyfer meysydd y cytunwyd arnynt fel blaenoriaeth genedlaethol
- pennu blaenoriaethau ar gyfer ymchwil i gasglu tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio'n dda
- rhannu arfer da â'r gweithlu er mwyn iddo allu darparu'r ymateb gorau
- darparu gwybodaeth am ofal a chymorth i'r cyhoedd, y gweithlu a sefydliadau eraill.

Mae'r cyllid yn parhau ar yr un lefel â Chyllideb Atodol mis Mehefin.

| Cam Gweithredu:Y Comisiynydd Pobl Hŷn | | |
|---|---|---|
| **2018-19 Cyllideb atodol Mehefin 2018 £m** | **Cyllideb Ddrafft 2019-20 £m** | **Newid £m** |
| 1.545 | 1.545 | - |

Mae'r cam gweithredu hwn yn cyllido Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, comisiynydd statudol annibynnol. Mae rôl a phwerau statudol y Comisiynydd wedi'u diffinio gan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 a'r Rheoliadau cysylltiedig. Mae'r Ddeddf yn amlinellu'r camau gweithredu y gall y Comisiynydd eu cymryd er mwyn sicrhau bod buddiannau pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo pan fydd cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu swyddogaethau a'r cymorth y gall y Comisiynydd ei ddarparu'n uniongyrchol i bobl hŷn mewn sefyllfaoedd penodol.

Mae Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 a Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Diwygio) 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd baratoi a chyflwyno amcangyfrif o'r incwm a gwariant ei swyddfa, i'w harchwilio gan Weinidogion Cymru a'u gosod gerbron y Cynulliad cyn dechrau'r flwyddyn ariannol.

Cyflwynodd y Comisiynydd blaenorol ei hamcangyfrif o incwm a gwariant ar ddiwedd 2017, gan ddangos angen am sefydlogrwydd o ran cyllid. Mae'r angen am lwyfan sefydlog o gyllid i mewn i 2019-20 yn parhau. Yn ogystal â chostau gweithredu, mae rhaglenni gwaith allweddol yn rhedeg dros flynyddoedd ariannol a byddant yn parhau i mewn i 2019-20, er enghraifft Heneiddio'n Dda yng Nghymru; gwaith i gynorthwyo eiriolaeth mewn cartrefi gofal a chynyddu'r defnydd o wasanaethau eiriolaeth oedolion; Adolygiadau Adran 3; Gwaith ar bobl hŷn a hawliau dynol, gwaith achos sy'n cynorthwyo pobl hŷn sy'n cysylltu â'r OPCW i gael cymorth a chyngor.

Mae'r cyllid yn parhau ar yr un lefel â Chyllideb Atodol mis Mehefin.

| **Cam Gweithredu: Cefnogi Plant** | | |
|---|---|---|
| **2018-19 Cyllideb atodol Mehefin 2018 £m** | **Cyllideb Ddrafft 2019-20 £m** | **Newid £m** |
| 39.090 | 49.996 | 10.906 |

Mae’r rhan fwyaf o’r cyllid yn y cam gweithredu hwn ar gyfer y cynnig gofal plant (sy’n destun craffu gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc a Chydraddoldeb). Mae'r cam gweithredu hwn hefyd yn cynnwys cyllid ar gyfer y Grant Pontio i Blant sy'n Derbyn Gofal (LACTG) sy'n darparu cyllid ar gyfer nifer o fentrau sy'n gwella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal fel bod yr holl blant mewn gofal yn cael yr un cyfleoedd bywyd â phlant eraill. Mae hefyd yn cynnwys y gyllideb Plant agored i Niwed sy'n cynorthwyo plant sydd wedi'u mabwysiadu i sicrhau eu bod nhw a'u teulu'n cael y mynediad angenrheidiol i wasanaethau cymorth i ddechrau eu bywyd teuluol.

**Esboniad o'r Newidiadau i'r Cam Gweithredu Cefnogi Plant**

- Trosglwyddo £(1.000) miliwn i'r Grant Plant a Chymunedau yn y MEG Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol mewn perthynas â'r Gronfa Dydd Gŵyl Dewi;
- Cynnydd o £15.000 miliwn mewn perthynas â chyllid ychwanegol ar gyfer y cynnig Gofal plant sydd wedi cynyddu o £25 miliwn yn 2018-19 i £40 miliwn yn 2019-20;
- Trosglwyddo £(2.300) miliwn o'r BEL Cymorth i Ofal Plant a Chwarae mewn perthynas â'r Grant Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol; a,

- £0.306 miliwn wedi'i ddyrannu i'r BEL Gofal Plant a Chwarae yn ystod ailstrwythuro'r prif grwpiau gwariant yn ystod cyllideb ddrafft 2018-19
- £(1.100) miliwn wedi'i drosglwyddo i'r Cam Gweithredu Gofal a Chymorth Cymdeithasol mewn perthynas â Diogelu ac Eiriolaeth

| **Cam Gweithredu: CAFCASS Cymru** | | |
|---|---|---|
| **2018-19 Cyllideb atodol Mehefin 2018 £'000** | **Cyllideb Ddrafft 2019-20 £'000** | **Newid £'000** |
| 10,267 | 10,267 | - |

Mae Cafcass Cymru yn wasanaeth gweithredol a arweinir gan y galw sy'n darparu gwasanaeth statudol i'r Llys Teulu yng Nghymru ar ran Gweinidogion Cymru. Mae ymarferwyr Cafcass Cymru yn gweithio gyda bron 9,000 o'r plant a phobl ifanc mwyaf agored i niwed yn y system cyfiawnder teuluol, gan sicrhau bod ein hymyriadau'n hyrwyddo llais y plentyn, yn canolbwyntio ar ei hawliau, lles a buddiannau gorau i gyflawni canlyniadau gwell i'r plentyn sy'n rhan o'r System Cyfiawnder Teuluol yng Nghymru.

Mae'r sefydliad yn ceisio dylanwadu ar y system a gwasanaethau cyfiawnder teuluol i blant yng Nghymru, gan ddarparu cyngor o ansawdd uchel i Weinidogion a sicrhau bod anghenion teuluoedd a phlant Cymru yn cael eu hadlewyrchu mewn datblygiadau proses a pholisi.
O'r gyllideb o £10.267 miliwn, mae 92% wedi'i briodoli i gostau staffio ac 8% i wasanaethau a gomisiynwyd a chostau seilwaith. Ar wahân i gostau staffio a rhedeg ar gyfer y sefydliad, mae'r gyllideb yn darparu cyllid grant i gynorthwyo rhieni sydd wedi gwahanu, pan fyddant yn cael cyfarwyddyd gan y Llys Teulu, i gael cyswllt â'u plant. Mae'r gyllideb hefyd yn cyllido darpariaeth y rhaglen Gweithio Gweithio Gyda'ch Gilydd Er Lles Plant sy'n cynorthwyo rhieni sydd wedi gwahanu, neu sydd yn y broses o wahanu, i reoli eu hymddygiad eu hunain yn well er mwyn sicrhau bod anghenion emosiynol, ymarferol a chorfforol a budd pennaf eu plant yn ganolog.

Mae'r cyllid yn parhau ar yr un lefel â Chyllideb Atodol mis Mehefin.

**ATODIAD B**

## Y diweddaraf ar gynnydd

Mae'r Atodiad hwn yn rhoi'r diweddaraf ar gynnydd yn erbyn argymhellion y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ym mis Rhagfyr 2017, fel y nodwyd yn ei adroddiad ar gyllideb ddrafft 2018-19. Mae hyn yn cynnwys manylion am ddyraniadau cyllideb perthnasol ar gyfer 2019-20.

***Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru nodi ffyrdd y caiff cyllid i drawsnewid gwasanaethau a chyllid pontio eu blaenoriaethu a sicrhau eu bod ar gael i sefydliadau'r GIG o fewn cyllidebau presennol.***

**Y diweddaraf ar gynnydd:**
Bwriedir i'r Gronfa dalu am gostau ychwanegol â therfyn amser cyflwyno modelau newydd o iechyd a gofal cymdeithasol. Mae wedi'i hanelu at gyflymu mabwysiadu ac uwchraddio ehangach ffyrdd newydd o weithio sydd wedi'u bwriadu i gymryd lle gwasanaethau presennol neu eu had-drefnu.

Yn arbennig, mae'r Gronfa wedi'i chynllunio i fynd ati'n gyflym i ddilysu gallu modelau newydd i dyfu yn unol â'r anghenion (eu gallu i ehangu o ardal i ranbarth, neu o ranbarth i ranbarthau eraill) ac i brofi a ydynt yn 'drawsnewidiol' (fforddiadwy a chynaliadwy, newid dulliau presennol neu gymryd eu lle yn hytrach nag ychwanegu haen ychwanegol atynt).

Bydd y Gronfa yn darparu cyllid refeniw i gynorthwyo 'prosiectau trawsnewid' â therfyn amser sy'n cynorthwyo cyflwyno modelau newydd. Ni fydd y Gronfa yn cynorthwyo costau ychwanegol darparu modelau newydd ar sail reolaidd. Bydd yn cynorthwyo costau sy'n ymwneud yn benodol â'r 'prosiect trawsnewid', er enghraifft:

- Amser staff – rhyddhau staff i ddatblygu a phrofi modelau newydd o ofal, gan gynnwys ôl-lenwi rolau presennol lle bo angen
- Seilwaith rhaglen – yn genedlaethol ac yn lleol, ond yn gymesur â maint y newid
- Seilwaith ffisegol – lle y bo'n bosibl o gyllid refeniw, yn enwedig cymhwyso TGCh
- Costau rhedeg dwbl – i gynorthwyo'r pontio o fodelau gofal presennol i fodelau gofal newydd.

Cafodd Cyllid Trawsnewid ei gyhoeddi'n wreiddiol am gyfnod o ddwy flynedd, gan gwmpasu blynyddoedd ariannol 2018-19 a 2019-20. Yn seiliedig ar adborth gan fyrddau partneriaeth rhanbarthol mae'r cyfnod cyllido wedi'i ddiwygio i alluogi mwy o hyblygrwydd – cyfnod cyllido dwy flynedd o hyd ond yn dechrau o nawr ac felly'n rhychwantu tair blynedd ariannol 2018-19 i 2020-21.

Yn ogystal, mae gweinidogion a swyddogion wedi bod yn glir bod y Gronfa Drawsnewid wedi'i bwriadu i gyflymu prosiectau a ddewiswyd yn unig, yn enwedig modelau newydd o ofal, dros gyfnod â therfyn amser. Dylai trawsnewid gwasanaethau fod yn weithgaredd craidd i'r holl bartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol, wedi'u cynorthwyo o'u cyllid rheolaidd – "dyma'r £9 biliwn y mae

angen i drawsnewid”.  Rydym yn disgwyl i arweinyddiaeth systemau gref ysgogi'r newid trawsnewidiol sydd ei angen ledled Cymru, gan fynd ymhell y tu hwnt i'r swm cymharol fach a ryddheir drwy'r Gronfa Drawsnewid ei hun.

Nid oes dyraniad cymesur o gyllid trawsnewid i ranbarthau daearyddol nac i fathau o fodelau. Bydd y Rhaglen Drawsnewid yn ceisio sicrhau dosbarthiad priodol ledled Cymru, ac i wahanol fathau o fodelau, ond bydd y gallu i wneud hyn yn dibynnu ar gryfder y cynigion a geir. Bydd y Rhaglen Drawsnewid yn gweithio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a phrosiectau cyflawni fel y bo'n ofynnol i gynorthwyo datblygu prosiectau ledled Cymru, gan gynnwys er enghraifft cyllid wedi'i dargedu ar gyfer mabwysiadu ‘ail don’ i mewn i ranbarthau newydd.

***Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru a GIG Cymru flaenoriaethu gwaith ataliol. Rhaid i hyn amrywio o ymyriadau sy'n sicrhau canlyniadau amserol i gleifion i fuddsoddi i arbed rhaglenni fel ymgyrchoedd ataliol ym maes iechyd. Rhaid i fuddsoddiad mewn dulliau ataliol fod yn rhan annatod o waith newid trawsffurfiol GIG Cymru.***

**Y diweddaraf ar gynnydd:**
Mae angen dybryd i ni atal, ac ymyrryd yn gynharach mewn cyflyrau hirdymor (clefydau anhrosglwyddadwy neu gyflyrau cronig) fel clefyd cardiofasgwlaidd ac anadlol cronig, canser a diabetes mewn ffordd sy'n seiliedig ar dystiolaeth a fydd yn sicrhau'r effaith fwyaf posibl wrth wella iechyd a llesiant yng Nghymru. Nid yw heriau gweithredol y system iechyd a gofal bresennol yn gynaliadwy ac mae angen dybryd i ganolbwyntio ar greu cymdeithas iach a chynaliadwy.

Mae *Cymru Iachach* yn rhoi pwyslais cryf ar rôl atal, i alluogi pobl i gael eu cynorthwyo ac i barhau'n egnïol ac yn annibynnol, yn eu cartrefi eu hunain, am gyhyd ag y bo modd. Caiff hyn ei ysgogi drwy alluogi ac annog iechyd a llesiant da gydol oes a thrwy ragweld a rhagfynegi iechyd a llesiant gwael. Mae hyn yn cyd-fynd â’r ymrwymiad yn *Ffyniant i Bawb* i ddatblygu ymgyrchoedd iechyd y cyhoedd a fydd yn helpu i newid ymddygiad ar draws y boblogaeth.

Er mwyn cyflawni'r nodau hyn rydym wedi rhoi mwy o ffocws ar waith Iechyd Cyhoeddus Cymru i ehangu gwaith a gallu ac adnoddau'n ymwneud â dealltwriaeth ymddygiadol. Mae gwaith wedi'i ysgogi i werthuso dulliau presennol a chynyddu negeseuon i'r boblogaeth; mae hyn yn cynnwys asesu ansawdd ac effaith ymgyrchoedd presennol. Mae rôl gref i sicrhau ein bod yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymryd camau gweithredu, ar draws sectorau, i hybu iechyd, atal clefydau a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Ynghyd â datblygu gwasanaethau hanfodol sy'n ceisio diogelu’r cyhoedd a gwella’n barhaus ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau rydym ni’n eu darparu.

Rydym yn rhoi pwyslais cryfach ar faetheg, deiet a gweithgarwch corfforol ar draws y boblogaeth drwy ddatblygu strategaeth gordewdra genedlaethol – Pwysau Iach: Cymru Iach, y deddfwyd yn ei herbyn drwy ein Deddf Iechyd y Cyhoedd 2017. Bydd hyn yn canolbwyntio ar atal ac ymyriad a byddwn yn ymgynghori yn yr hydref a chaiff strategaeth derfynol ei chyhoeddi erbyn mis Hydref 2019. Rydym hefyd yn ysgogi partneriaethau a chyflawni ar y cyd drwy gyllid presennol. Mae cynllun gweithredu

gweithgarwch corfforol ar y cyd yn cael ei ddatblygu drwy Iechyd Cyhoeddus Cymru, Chwaraeon Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, a fydd yn defnyddio adnoddau a chyflawni ar y cyd i ysgogi newid.

Cafodd y Gronfa Iach ac Egnïol ei lansio ym mis Gorffennaf, sy'n cyflawni mewn modd integredig ymrwymiadau'r Gronfa Ffyniant ar gyfer Bond Llesiant a Chronfa Her ar gyfer Chwaraeon. Mae'r Gronfa Iach ac Egnïol, sef partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chwaraeon Cymru, yn gosod y pum ffordd o weithio wrth wraidd ei chynllunio, cyflawni, monitro a gwerthuso. Mae £5 miliwn ar gael dros dair blynedd, gyda'r nod o wella iechyd meddyliol a chorfforol drwy alluogi ffyrdd iach ac egnïol o fyw, gyda ffocws penodol ar gryfhau asedau cymunedol.

***Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu rhaglen effeithlonrwydd Cymru gyfan er mwyn sicrhau bod arfer da lleol yn cael ei drosi i newid ar draws gwasanaethau ledled Cymru.***

**Y diweddaraf ar gynnydd:**
Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Uned Cyflawni Cyllid, sy'n cael ei chynnal gan Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Fel rhan o'i rhaglen waith, mae'r Uned wedi datblygu Fframwaith Effeithlonrwydd sydd ar gael i holl sefydliadau GIG Cymru. Mae'r Fframwaith yn darparu amrywiaeth mawr o wybodaeth am gostio, meincnodi a deallusrwydd arall i ddarparu adnodd craidd i sefydliadau nodi cyfleoedd ar gyfer gwella ac effeithlonrwydd. Mae'r fframwaith hefyd yn caniatáu rhannu aferion da ac enghreifftiau o roi rhaglenni gwella ar waith yn llwyddiannus ar draws sefydliadau. Bydd yr Uned yn cynorthwyo ac yn herio mabwysiadu'r cyfleoedd hyn gan sefydliadau yng nghyd-destun cymorth ar gyfer ymyriad Llywodraeth Cymru mewn sefydliadau sy'n destun uwchgyfeirio, ac yn fwy eang wrth adolygu cadernid cynlluniau tymor canolig integredig.

***Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai rhaglen effeithlonrwydd Cymru gyfan Llywodraeth Cymru (ein Hargymhelliad 5) ganolbwyntio'n glir ar sut bydd buddsoddiad cyfalaf yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd a chefnogi newid trawsffurfiol.***

**Y diweddaraf ar gynnydd:**
Mae'r canllawiau y mae disgwyl i sefydliadau iechyd eu dilyn wrth baratoi cynigion ar gyfer cael mynediad i gyllid cyfalaf yn nodi'r broses a'r ystyriaethau perthnasol gan gynnwys cyd-fynd â'r meini prawf a restrwyd uchod. Mae'r Bwrdd Buddsoddi mewn Seilwaith yn ystyried prosiectau buddsoddi cyfalaf mawr. Mae ei gylch gwaith yn cynnwys sicrhau bod yr holl fuddsoddiadau'n cyd-fynd â chyfeiriad strategol y GIG ac yn bodloni'r meini prawf

***Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gefnogi a dwyn byrddau iechyd i gyfrif i flaenoriaethu cyllid cyfalaf ar gyfer gofal sylfaenol sicrhau ei fod yn gwella capasiti corfforol ar gyfer gwaith aml-ddisgyblaeth a hyrwyddo modelau gofal newydd.***

**Y diweddaraf ar gynnydd:**

Mae'r 19 o brosiectau gofal sylfaenol sydd yn yr arfaeth yn cael eu datblygu. Mae'r cyllid ar gyfer cyflawni'r prosiectau hyn wedi cynyddu i £72 miliwn drwy ddarparu £4.5 miliwn pellach ar gyfer 2020-21 yn y gyllideb ddrafft.


***Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru wneud yr achos cryfaf posibl i Lywodraeth y DU / Gwasanaeth Rheoli Troseddau Cenedlaethol dros gynyddu'r hyn sy'n ddyraniad ariannol cymharol fach ar gyfer iechyd mewn carchardai er mwyn sicrhau bod unigolion yn yr ystadau diogel yng Nghymru, sy'n aml ag anghenion uwch na'r cyfartaledd, yn enwedig o ran iechyd meddwl, yn gallu cael gofal iechyd o safon.***


**Y diweddaraf ar gynnydd:**
Mewn ymateb i'r argymhelliad, mae swyddogion wedi gweithio'n agos gyda byrddau iechyd a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi i ddatblygu cyfres o flaenoriaethau a rennir, ac yn sail i hyn mae dull carchar cyfan o ran gwella iechyd a llesiant yng ngharchardai'r sector cyhoeddus. Mae'r blaenoriaethau'n cael eu llunio ar eu ffurf derfynol ac ar ôl cytuno arnynt byddant yn rhoi'r sail, ynghyd â'r boblogaeth gynyddol yng ngharchardai Cymru, i fynd at yr Ysgrifennydd Gwladol i godi pryderon

***Mae'r Pwyllgor yn argymell, o ystyried swm sylweddol gwariant GIG Cymru ar staff asiantaeth, dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad o'r anghysonderau a chynnal mentrau ar draws trefniadau asiantaeth / banc gyda'r bwriad o wneud newidiadau sy'n lleihau gwariant yn sylweddol.***

**Y diweddaraf ar gynnydd:**
Mae Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd wedi bod yn gweithredu gofynion y Cylchlythyr ac mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi parhau mewn cysylltiad agos â hwy ar y materion ymarferol sy'n codi yn ystod y broses weithredu. Yn ogystal, mae gwaith a gydlynir drwy'r Grŵp Staff Nyrsio Dros Dro wedi parhau i ganolbwyntio ar ostyngiad mewn gwariant ar nyrsys asiantaeth.

Ceir tystiolaeth o gynnydd i leihau'r gwariant ar asiantaethau a locwm a adlewyrchir yn y tabl data isod.




Nid ydym hyd yma wedi sefydlu Uned Cyflawni'r Gweithlu, am ein bod yn ystyried sut y dylai'r capasiti hwn gyd-fynd â sefydlu'r swyddogaeth Gweithrediaeth GIG newydd a nodir yn Cymru Iachach. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi bod yn rhwystr i gynnydd oherwydd bod y system yn dal i weithio i wireddu'r manteision llawn o'r rheolaethau a gyflwynwyd fel rhan o'r Cylchlythyr ac o drosglwyddo caffael staff nyrsio dros dro i'r contract Fframwaith Cymru gyfan newydd.

Cyfarfu swyddogion a chydweithwyr allweddol sy'n gweithio ar gyflawni newid i'r defnydd o staff asiantaeth a locwm ar draws y GIG ar 12 Hydref i ystyried profiadau

hyd yma ac i gynghori Ysgrifennydd y Cabinet ar y cam nesaf o gamau gweithredu cydgysylltiedig ledled Cymru i leihau gwariant a defnydd a pharhau i ddileu cymhellion gwrthnysig ac anghysondebau ar draws y system. Bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn cyhoeddi'r gweithredoedd i'w cynnwys yng ngham nesaf y gwaith hwn pan fydd wedi ystyried cyngor y grŵp.

***Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi mewn dull system gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Rhaid sicrhau bod cyllid ychwanegol blwyddyn ar ôl blwyddyn wedi'i gynllunio ar gael ar gyfer gofal cymdeithasol sy'n ddigonol i adlewyrchu gofynion cynyddol.***

**Y diweddaraf ar gynnydd:**
Yn y gyllideb ddrafft hon rydym yn buddsoddi £30 miliwn pellach mewn gwasanaethau cymdeithasol o'r tu mewn i'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a darperir £20 miliwn pellach drwy'r Grant Cynnal Refeniw o'r MEG Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.

Yn ogystal, rydym wedi darparu £30 miliwn yn 2019-20 er mwyn i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddatblygu modelau newydd o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig.

***Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau nad yw'r newidiadau diweddaraf mewn portffolios yn cael effaith andwyol ar alinio rhwng polisïau o ran gweithgarwch corfforol a chwaraeon a'r rhai sy'n ceisio gwella canlyniadau iechyd a lles.***

**Y diweddaraf ar gynnydd:**
Ceir trafodaeth a gweithredu parhaus ar draws adrannau er mwyn ysgogi cyflawni. Mae hyn wedi cynnwys gwaith ar y cyd i ddatblygu ‘Pwysau Iach: Cymru Iach’ i atal a lleihau lefelau gordewdra ledled Cymru, sy'n cynnwys camau gweithredu at y dyfodol i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol. Caiff hyn ei ysgogi gan fwrdd gweithredu ar draws adrannau. At hynny, mae Chwaraeon Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi cael y dasg o ddatblygu camau gweithredu ar y cyd ar weithgarwch corfforol, sy'n cynnwys cysoni canlyniadau a gweithredoedd ar y cyd ar draws sefydliadau.

Cafodd y Gronfa Iach ac Egnïol ei lansio ym mis Gorffennaf gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon Bydd y buddsoddiad cam cyntaf o £5 miliwn dros dair blynedd yn canolbwyntio ar wella lefelau gweithgarwch corfforol. Mae datblygu a chyflawni'r Gronfa Iach ac Egnïol yn bartneriaeth ar draws adrannau gyda Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.